"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1879. [RHIF 72.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y Grefydd mae yr oes yn ymofyn	265
Rhodio gyda Duw	270
Nodynau Hynafiaethol	270
Islwyn	273
Rhyfeddodau	273
Thomas Edward, y Naturiaethwr Ysgotaidd	274
Bwyd rhad yn amser prinder	279
Y Cyfarfod Chwarterol	280
Gohebiaethau	281
Hanesion	282
Marwgofion	282
Priodas	283
Barddoniaeth	284

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

WELSH UNITARIAN MINISTERS' EDUCATION FUND, 1877-79.

COMMITTEE :

All Unitarian Ministers *ex officio.*

LAYMEN :

DAVID REES, Lampeter,
WILLIAM THOMAS, Chemist, Aberdare,
DANIEL DAVID, Abernantygroes,
THOMAS THOMAS, Merthyr,
DAVID THOMAS, Rhydowen.

R. JENKIN JONES, Myrtle Cottage, Aberdare, *Secretary.*
EVAN THOMAS, Brynhyfryd, Aberdare, *Treasurer.*

The following Rules have been appointed for the guidance of the Committee in the administration of the Fund.—

1. That the Committee shall meet, at least, four times a year,—four to form a quorum.

2. That each Candidate shall receive the same sum, *i.e.*, £12 a year, which shall be paid quarterly, on the endorsement of the application by the Candidate's Tutor.

LIST OF SUBSCRIPTIONS.

	£	s.	d.
To Balance	5	0	10½
Mr. J. Jones, Chemist, Aberdare	0	10	0
Treorkey—Collection per Mr. L. N. Williams	0	8	0
St. Clears—per Mr. D. Phillips.			
Mr. W. Evans, Trefenty ..	0	5	0
,, T. Evans, ,, ..	0	5	0
,, D. Phillips, Mermaid ..	0	5	0
Mrs. A. Thomas, Bp's Court ..	0	3	0
Mr. W. Phillips, Railway Hotel	0	2	0
Aberdare, Old Meeting House, per Mr. James James ..	2	13	3
Per Rev. W. Thomas, M.A., Llwynrhydowen ..	1	8	6
Llandyssul	0	16	10
Per late Rev. T. Lloyd—Wick..	0	7	6
Nottage	0	10	6
Rev. T. Lloyd ..	0	5	0
S. Sharpe, Esq., London ..	5	0	0
Cefncoed—Collection ..	1	1	0
Dowlais do... ..	0	9	0
Lampeter—per Rev. R. C. Jones	1	7	8
Caeronen—per do.			
Miss Jones, Wern Cottage ..	0	10	0
Master J. Davies, Wern Cottage	0	2	0
Miss M. A. Davies, do. ...	0	2	0
Mrs. Davies, Coedmor ..	0	5	0
Master E. W. Davies, do. ..	0	0	6
Miss R. Evans, do. ..	0	0	6
Mrs. Davies, Lanlas ..	0	2	0
Mr. Davies, Llwynifan ..	0	2	6
Mr. Evan Davies, Blaenwain ..	0	2	0
" John Jones, Ffynonddewi..	0	1	6
Miss M. Davies, Rhydderchlwyd	0	1	0
Mr. John Thomas, Blaenwain..	0	1	0
Mrs. A. Thomas, Tangraigwen	0	0	6
Mr. D. Davies, Lletylluwch ...	0	0	6
Miss M. Davies, Silver Mine ..	0	0	6
,, J. Thomas, Trebannau ..	0	0	6
Mrs. M. Jones, Llwynfedw ..	0	0	6
Rhydygwin—per Rev. W. Rees	1	8	6
Panteg—per Rev. W. Davies ...	0	5	6
Rhydyparc—per Mr. J. Evans..	3	17	10
Cribin—per Rev. D. Evans, B.A.	1	3	0
Mr. James Evans, Dowlais ..	0	3	0
Miss Williams, London ..	1	0	0
Capelygroes—per Rev. T. Thomas	2	3	7

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] CHWEFROR, 1879. [Rhif. 72.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

Y GREFYDD MAE YR OES YN YMOFYN.

Un o angenion a hawliau mwyaf pwysig yr oes ydym ni yn byw ynddi ydyw crefydd ymarferol, nid crefydd sydd yn dyrchafu y derbyniad o athrawiaeth i sefyllfa o bwys mawr iawn, yn gymmaint a chrefydd sydd yn anerch ei hunan at ddiwygiadau moesol a chymdeithasol; nid crefydd sydd yn diyspyddu ei nerth mewn ymrafaelio yn nghylch credöau a chyffesiadau, ond crefydd sydd yn amlygu ac yn dangos ei hun mewn gwynebu drygau ac anfoesoldeb yr oes, ac yn cynnorthwyo i esbonio anhawsderau a symmud ymaith achosion meddwdod, anfoesoldeb, tlodi, a chardota. A allwn ni synu wrth feddwl am yr alwad daer am athroniaeth ymarferol a chrefydd a wna wir les i ddyn?

Y mae yr olygfa o anfoesoldeb a phechod yn mhlith yr uchel a'r isel yn ein llanw â syndod, a gradd o anobaith. Y mae y cyferbyniad rhwng sefyllfa y tlawd a'r cyfoethog—lleoedd tywyllion yn gyflawn o drigfanau creulondeb—y lluoedd sydd yn byw yn annghofus o Dduw, o'u dyledswyddau ato Ef a thuag at eu gilydd—yn melldithio Duw, lle y mae plant bychain yn cael eu hesgeuluso, yn byw yn debyg i gwn, ac yn marw yn anamserol; lle y mae wylo ac wylofain parhaus yn mhlith miloedd lawer o'n cydgreaduriaid, lle mae drygau mewn lleoedd uchel ac isel * * * Onid yw y pethau yma a llawer yn rhagor allasem eu henwi, am y rhai ydym yn gwybod, a llawer yn rhagor ydym wedi clywed am danynt, yn ddigon i beri i'n calonau oeri, ac i'n gorfodi i waeddi allan am allu i achub?

A ydyw Cristionogaeth yn grefydd ymarferol cyfartal i gyfarfod â'r drygau moesol a chymdeithasol yma? Credwn ei bod, ac nid yw hwn yn gasgliad anwarantadwy oddiwrth ffeithiau fod Cristionogaeth yn dyfod i gael ei hystyried fwy fwy bob dydd fel y cyflawniad o gyfiawnder a gweithredoedd da, ac yn llai lai o gredo sych, a phe buasai wedi cael ei hystyried felly, a'i chydnabod fel gallu Duw i achub y byd oddi-

wrth bob peth sydd ddrwg a gelynol i gyssur a dyrchafiad dynoliaeth, ni fuasai cymmaint o ddrygfyd, annghariad, a phechod i'w gyfarfod yn ein byd. Y mae crefydd wedi cael ei chamddeall gymmaint fel y mae wedi cael ei amddifadu o bob dylanwad ymarferol dda ar y byd, ac ar sylweddau bywyd. Y mae wedi cael ei gosod allan fel ymwrthodiad hollol â galwadau dyddiol yn y byd, ac mewn ymneillduo o'r byd gyda golwg i ddal cymmundeb â Duw; nid oes dim a fyno hi, yn ngholwg personau o'r fath yma â galwadau cyffredin bywyd. Barna ereill na waeth rhyw lawer, pa sut yr ymddygant tuag at ereill yn eu masnach a'u galwadau dyddiol, os gallant ddywedyd, "Arglwydd, Arglwydd," hwyr a boreu; ond y ffaith yw, nid yw crefydd o un gwerth os nad yw yn peru fod ein bywyd cymdeithasol yn fwy haelionus a iachus; ein bywyd masnachol yn fwy gonest, ein bywyd gwladol yn fwy cyfiawn, a'n bywyd crefyddol yn fwy sylweddol.

Y mae wedi cael ei hystyried fel yn gynnwysedig mewn teimlad dwys, mewn ympryd a phenydiau, ac fel yr awgrymwyd yn barod mewn ymneillduo oddiwrth y byd; tra y mae hanes yn dangos yn amlwg ddigon lle mae y ffurfiau yma wedi ffynu, fod gofidiau a thristwch heb eu symmud ymaith, a bod moesau dirgel a chyhoeddus cymdeithas wedi eu darostwng i'r cyflwr iselaf a mwyaf gresynus. Y mae wedi cael ei harddangos, efallai mai dyma y ffurf benaf o honi, fel yn anwahanol gyssylltiedig ag haerdybiau duwinyddol. Y mae duwinyddion wedi gosod y pethau yma allan fel ei Alpha a'i Omega, ac y maent wedi ei hamddifadu o lawer o'i nerth trwy ymrafaelio ac amddiffyn dyffyniadau athrawiaethol o honi, yn hytrach na thrwy anadlu ei hyspryd, fel elfen o allu byw i gymdeithas, i fasnach a materion gwladol, ac yn ei gadael o'r neilldu yn eu trafodaeth â'r byd, ac oblegyd hyny y mae creulonderau wedi cael eu cyflawni, erledigaeth a rhyfeloedd wedi cael eu cario allan yn ei henw gan lywodraethau eglwysig, a chenedloedd wedi eu darostwng a'u llethu gan offeiriadon.

Ond y mae Cristionogaeth mewn modd arbenig yn grefydd ymarferol. Y mae yn ein cymhell i ganlyn ol traed yr Iesu, ac i gyflawni yr un, neu gyffelyb waith ag yntau. Y mae yn gorchymyn i ni garu, addoli, a moliannu; ond nid yw y rhai yma ond megys offerynau a chymhelliadau i weithgarwch. Nid gweddio yn unig y mae crefydd Crist yn ein cymhell i'w wneyd, ond hefyd i wylied—gwylied am gyfleusderau i wneyd daioni, ac ysgafnhau beichiau ein gilydd. Y mae yn dirgymhell y meithriniad o feddyliau a thueddiadau crefyddol; o ganlyniad, nid yw yn gynnwysedig o gwbl mewn perlewygon a theimladau neu gynhyrfiadau i ddyn fel creadur rhesymol a chyfrifol i'w Greawdwr.

Pan y mae dynion yn ddiofal o alwadau cyffredin bywyd, ac yn ddisylw o waedd y weddw a'r tlawd, ac angenion yr angenus, gyda golwg i fyw bywyd crefyddol, fel y gelwir hyny gan rai, y maent yn troi clust byddar at hawliau mwyaf pwysig crefydd. Pan y mae duwinyddion yn ffurfio credöau, ac yn gorfodi ereill i'w credu a'u hamddiffyn gyda ffyrnigrwydd, ac yn gwneyd pob ymdrech i atal rhyddymofyniad, ymddengys i ni eu bod yn gosod hawliau crefydd bur a dihalogedig o'r

neilldu, ac yn gorfoleddu yn y llythyren farw yn hytrach nag yn yr yspryd sydd yn bywhau. Gwaith cyfiawn a da yw crefydd. Wedi ei phorthi â defosiwn, nid yw yn aros yn yr un man; ac wedi ei bywiogi gan deimlad dwys a bywiol, nid yw megys yn cysgu wedi'n. Wedi ei dyrchafu â'i dwyshau gan feddyliau ardderchocaf y meddwl dynol, nid yw yn aros fan hyny. Nid gwybodaeth yn unig ydyw, ond y mae yn peru i ddyn i weithredu yn ol gwybodaeth. Nid peth sydd yn ein gorfodi i fod yn segur, ac i gyfyngu ein holl fyfyrdodau arnom ein hunain ydyw, ond egwyddor sydd yn dylanwadu arnom yn y fath fodd ag i beru i ni lafurio yn barhaus gyda golwg i lesoli y byd a symmud ymaith ei ddrygau—i frwydro o blaid gonestrwydd mewn bywyd masnachol, a thros gyfiawnder, tegwch a phurdeb mewn pob trafodaeth mewn bywyd, ac o hyd yn dwyshau ac yn goleuo eu bywyd crefyddol. Dyma beth a olygai Wilberforce, pan ddywedai, "Nad oedd ganddo ef amser i'w roddi ac i feddwl am ei iechydwriaeth ei hunan, o herwydd fod y caethweision yn cymmeryd i fyny ei holl amser a'i sylw." Nid yw y grefydd sydd yn gyfyngedig i deimladau gwresog hedegog, perlewygon a phethau allanol o werth ond ychydig iawn yn wir. Dylai crefydd gyffroi y dwylaw i fod yn effro a diwyd yn ein gwaith, yn calonogi a dyddanu yr annyddanus, fel y byddo eu gofid a'u galar i gael eu lliniaru a'u symmud ymaith, ac i iachau y torcalonus fel y byddo i'w dagrau gael eu sychu, ac wrth gymmeryd i fyny y clwyfedig ar fin y ffordd fawr a'i ymgeleddu, neu weini at ei angenion. Gall crefydd arwynebol beru i ddynion waeddi allan, "Arglwydd, Arglwydd;" ond y mae crefydd ymarferol yn beth sydd yn galluogi dyn i gydymdeimlo ag ereill, ac i'w bendithio trwy symmud ymaith o'r gwraidd eu clefydau moesol, trwy gyflawni gweithredoedd da. Gall perlewyg ysprydol fod yn beth o'r goreu, ond llawer gwell yw ymdrech egniol, onest, a ffyddlon, i adgyweirio y rhwygiadau, ac adeiladu dynoliaeth yn y wir ffydd Gristionogol. Y mae rhywbeth ag sydd yn llawer mwy gwerthfawr na rhyw deimladau annaturiol i ddyn—rhywbeth sydd yn llawer gwell, sef y gosodiad o'r galon ar waith i hwylusu pob cyfraith a moddion sydd â thuedd ynddynt i symmud ymaith glefydau moesol dynion, i unioni pob cam, ac felly i fendithio y gymdeithas ddynol â'r bendithion hyny y mae yn sefyll mewn mwyaf o angen am danynt gyda golwg i ddyrchafu ei chwaeth, ac i'w sefydlu yn mhob daioni.

Yn awr, a oes yn y grefydd Gristionogol gymhelliad cyfartal a digon o allu gorfodol i sicrhau y cyssegriad yma i'r gwaith ymarferol hwn? Credwn ei fod. Beth oedd yr hyn a ysprydolodd yr Iesu, a pheth oedd yr hyn orfodai yr apostol Paul, fel ei feistr, i effeithio diwygiad ysprydol? Cariad at ddyn fel dyn. Hyn oedd fel bywydol dân yn llosgi o'u mewn, ac yn gymhelliad iddynt i weithio nid er lles un dosparth o ddynion, ond pawb. Yr oedd eu cariad yn bur, awyddent a llafurient yn galed ddydd a nos i ddyrchafu ac ysprydoli y galon ddynol, a darfu i hyn brofi ei hunan, nid yn unig yn gymhelliad digon cadarn i'w ysprydoli a'i ddal i fyny yn ngwyneb gwrthwynebiadau cyndyn ac anhawsderau ymddangosent i rai yn anorchfygol; ond yn allu i ddihuno y dwyfol mewn eneidiau dynol. A phan ddarllenir hanes yn ystyriol,

gwelir pa fodd y mae dynion, pa un ai moesolwyr, diwygwyr cymdeithasol, dyngarwyr neu wladwriaethwyr ydynt, wedi dyfod i sylweddoli y gwirionedd o frawdoliaeth dyn, ac felly wedi bod yn alluog i godi dynion i fyny o gyflwr darostyngedig cymdeithasol, ac o gaethiwed politicaidd a dystryw moesol. Cariad at ddynoliaeth yw y gallu diwygiadol yma. Y mae Xavier yn denu y galon â'i swyn. Y mae dylanwad ysprydol Wesley yn troi, neu yn diwygio cenedl. Y mae Whitfield wedi cyffroi Lloegr ac America i weithgarwch, yr hwn nad yw byth mwy wedi pallu. Y mae Fox wedi llanw meddyliau miloedd trwy Loegr â ffydd yn yr Ysprydd Dwyfol, fel yn aros byth mwy mewn dyn, a ffydd i borthi y newynog, i ddilladu y noeth, ac ymweled â'r claf fel elfenau hanfodol crefydd. Yr oedd yn a chan y proffwydi yma gymhelliadau digon cryf i'w gorfodi i wneyd yr hyn oedd iawn a'u dal i fyny. Beth oedd? Ymlyniad wrth a pharch i ddynoliaeth, ac oblegyd eu bod yn caru eu cymmydogion fel eu hunain. Gallwn daflu cipolwg ar dudalenau dyngarwch. Y mae Oberlin, gyda boddlonrwydd ewyllysgar i ddyoddef pob peth, yn ymgymmeryd â'r weinidogaeth ar y Ban de la Roche, yn mhlith pobl resynus ac anwybodus, yn ysglyfaeth i ddiogi a newyn, heb gymmaint ag angenrheidiau hanfodol bywyd ganddynt, ac yn ymfoddloni ar fod felly. Mewn ychydig flynyddau y mae yn troi yr anialwch yma yn ardd Duw, ac yn effeithio cyfnewidiad mor hynod fel lle yr oedd anwybodaeth a phob peth sydd yn gyssylltiedlg ag ef, sef creulondeb, drygioni, a thlodi yn teyrnasu yn fuddugoliaethus, y mae gwybodaeth, gostyngeiddrwydd, digonedd, ac ewyllys da, megys yn teyrnasu yno yn bresenol. Y mae dynion yn mwynhau eu bodoliaeth, ac yn clodfori Duw.

Y mae Charles Beckwith, wrth ddarllen llyfr ar y Waldensiaid, yn llyfrgell Duc Wellington, yn cael ei orchfygu gan awydd i weled drosto ei hunan bobl cymydd y Vaudois, ac yn cael eu bod yn dyoddef oblegyd drygau gormes-lywodraeth, y mae yn ymgymmeryd â gwaith diwygiad, ac nid yw yn tolio amser nac arian yn ei ymdrech i effeithio ei genadwri. Y mae Chalmers yn myned i blwyf mwyaf lluosog, tlotaf, a mwyaf darostyngedig Glasgow; yn ysgubo ymaith drethi y tlodion, yn gwaghau y tlotdai, ac yn ei gyfnewid o'r hyn a ymddangosai yn ogof lladron i Baradwys Duw. Y mae Guthrie yn achub rhag newyn ac anwybodaeth filoedd o blant tlodion ystrydoedd y ddinas, y rhan luosocaf o'r rhai allasent ddweyd, fel y dywedodd un ferch fach yn mhlith y dau cant a deg ar ugain o'i "ysgol garpiog" gyntaf, yn ei angladd, "Efe oedd yr unig dad y gwyddwn i ddim am dano erioed." Y mae Zeller, trwy ei hunan-aberthiad, yn achub hil o grwydriaid mewn ysgol Germanaidd; ac y mae Pestalozzi yn ei syndod wrth feddwl am ei ddylanwad yn dywedyd, "Y fath allu, y fath allu! Mawr y carwn pe gallwn ail ddechreu bywyd." Yr oedd y gallu yn gorwedd yn y cariad oedd yn y dyn. Y mae Elizabeth Fry, a Sarah Martin, yn gryf mewn gobaith a chariad, yn gorchfygu hunanoldeb a ffieiddrwydd, yn myned i ffaeau annysgrifiadwy ffiaidd, ac yn profi nad yw y mwyaf drygionus ddim tu allan adferiad i rengoedd dynoliaeth. Y mae Florence Nightingale, yn gadael bro brydferth Derbyshire, i fyned allan

i faes y rhyfel, ac yn talu ei holl sylw i'r clwyfedigion oedd ar faes y gwaed, yn eu lloni, yn gwellhau eu clwyfau, ac yn ennill eu serch a'u cariad. Y mae Mary Carpenter, yn treulio ei hoes er bendithio dosparthiadau iselaf cymdeithas, y rhai oeddynt ddisylw gan eu gwlad, ac yn croesi y moroedd i ddyrchafu menywod India o'r cyflwr isel a darostyngedig oeddynt ynddo i gyflwr gwell a mwy dymunol. Beth oedd yn cynnal ac yn dal i fyny yr angylion gwasanaethgar yma? Cariad anorchfygol at ddyn a ffydd gadarn yn nghadwedigaeth dyn. I bwy gan hyny ydym ni yn atebol am driniaeth well drwgweithredwyr? I bwy ydym ni i briodoli y ddarpariaeth sydd wedi cael ei gwneyd i'r dyoddefydd, yr afiach, yr amddifad, y diamgeledd, a'r weddw? I bwy ydym yn ddyledus am ddyddymiad caethfasnach? I ddynion a menywod, bywydol waed y rhai oedd cariad at yr hil ddynol, gyda'r rhai oedd cydymdeimlad â dyn y fath ag oedd yn eu galluogi i gyflawni eu gweithredoedd clodus ac ardderchog.

Drachefn, pan ydym yn cymmeryd dan ystyriaeth lywodraethiad ein gwlad yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf, ei brif gymhelliadau, a'i dueddiadau, y mae yr un egwyddor i'w gweled yn fuddugoliaethus. Paham mae y llywodraethiad am yr hanner can mlynedd diweddaf wedi bod yn nghyfeiriad dyddymiad nodau dosparthol ac achosion cydraddoldeb y teulu dynol? Paham y mae gwell dealldwriaeth yn ffynu rhwng dosparth a dosparth o ddynion? Oblegyd fod gwladwriaethwyr wedi dyfod i barchu dyn fel dyn, i ddysgu fod gwir welliant, tra y mae yn dwyn oddiamgylch gyssur dynoliaeth, yn tarddu allan oddiar gariad y naill ddyn at y llall. Dyma gymhelliad digonol i weithredoedd ymarferol. Cyhyd ag y byddo dynion yn ymranu i rengoedd gwrthwynebol, cyhyd a hyny y bydd ein pynciau cymdeithasol a moesol heb gael eu deonglu, ein clwyfau cymdeithasol i gael eu cadw yn agored, a'n rhyfeloedd cymdeithasol i gael eu cario yn mlaen. Ond bydded i'n perthynasau cymdeithasol i gael eu gwella a'u cryfhau, bydded i fasnach gael ei chario allan yn deg, a bydded i grefydd bur lywodraethu pob aelod o'r gymdeithas ddynol, cydnabydder tadoldeb Duw a brawdoldeb dyn, bydded fod gan y naill olwg ar y llall, a bydded iddynt gydweithredu er daioni; ac er dyrchafiad eu gilydd, yna bydd ar waith ddylanwad a fydd i wellhau y byd mewn gwirioneedd.

S. F. W.

MAE gan yr Arabiaid ddywediad: "Digiwch eich cyfaill, a bydd yn syn genych i gael allan y fath filain ydych, hyd y nod yn meddwl eich cyfaill."

PEIDIWCH anfon am gynghorwr gyda'r dyben yn unig o gael eich cadarnhau yn eich opiniwn. Byddai yr un peth i chwi anfon am y doctor a rhoddi cyfarwyddyd iddo pa feddyginiaeth i barotoi i chwi.

GOBAITH sydd fel y corcyn i'r rhwyd, mae yn cadw yr enaid rhag suddo i anobaith ac ofn sydd fel y plwm, mae'n ei gadw rhag nofio mewn beiddgarwch.—*Watson.*

HA AC AH!—Ha! ydyw adsain gorfoledd, ac Ah! ydyw adsain tristwch. Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt yn fach iawn, fel yn gynnwysedig yn unig yn y trawsosodiad o'r hyn nid yw yn llythyren sylweddol, eithr anadliad yn unig. Mor fuan, yn nhreigliad munyd, yn amser anadliad, y mae ein llawenydd yn cael ei droi yn alar!—*Fuller.*

RHODIO GYDA DUW.

Trwy newidiadau bywyd o bob rhyw,
Dymunwn rodio gyda Thi fy Nuw ;
A'th gael Di'n wawl o'm amgylch ar bob pryd
A'm camrau'n rhodio santaidd dir o hyd.

Pob bendith atat Ti ei olrhain wnaf,
Gwel'd dy drugaredd yn mhob galar gaf ;
Trwy ffyrdd dyledswydd oll y carwn fyn'd
Gan deimlo'n sicr dy gael Di yn ffrynd.

A'r angel Angeu, ataf pan y daw,
Boed hyn yn nerth im', dy fod Ti ger llaw ;
A hyn fy lloniant, cael bod gyda Thi,
A'r bythfodolion yn y goleu Fry.

NODYNAU HYNAFIAETHOL.

(PARHAD O TUDALEN 250.)

Fel y dywedir yn YR YMOFYNYDD, 1851, tud. 198, traddodwyd pregeth angladdol i'r Parch. Dafydd Llwyd, yn Llwynrhydowen, oddiwrth Actau xx. 32, 33, gan y Parch. David Jones, Prescot, Lancashire. Bu farw D. Llwyd, Chwefror 4ydd, 1779, yn ddisymwth. Dywed y Parch. John Jones, Aberdar, "mai mab y Fadfa, ac ewythr i mi, brawd fy mamgu, mam fy nhad, ydoedd Dafydd Jones, o'r Prescot." Dilynodd Mr. D. Jones yr enwog Barch. Paul Cardale, fel gweinidog yn Evesham tua 1775. Aeth oddiyno i Prescot yn 1783, ac yno y bu farw yn 1798, a chladdwyd ef y dydd diweddaf o'r flwyddyn, a thraddodwyd ei bregeth angladdol gan y Parch. Peter Chowbent, yr hwn a ddaeth yn olynydd iddo yn Prescot. Yr oedd Jones, Prescot, a Davis, Castell Hywel, yn gydfyfyrwyr yn Ngholeg Caerfyrddin. A ganlyn yw yr ysgrif ar ei gareg fedd: "In memory of the Revd. David Jones, late minister of this congregation, near 16 years. Who departed, December 27th, 1798, aged 58 years." "Jane Jones, departed February 19th, 1800, aged 69."

Mewn bywgraffiad o'r Parch. Dr. Charles Lloyd yn y *Christian Reformer* am 1852 tud. 618, yr hwn sydd wedi ei ysgrifenu gan un oedd yn mhell o fod yn gyfeillgar, dywedir ei fod yn "ddyn o dalentau a chyrhaeddiadau cryn helaeth, y rhai, pe byddent wedi eu cyfuno â thymher garuaidd, a allent fod wedi sicrhau iddo ddefnyddioldeb a pharch a dedwyddwch." Dywedir ei fod yn drydydd mab i'r Parch. D. Lloyd, y gweinidog gwrthdrindodaidd cyntaf yn y dywysogaeth—pregethwr galluog a phoblogaidd. Tua 1783, aeth i'r Coleg Henadurol, y pryd hwnw yn Abertawe, lle'r oedd Lewis Lloyd, y Banker, tad Arglwydd Overstone, yn gydfyfyriwr ag ef. Yn Awst, 1788, cyn ei fod yn 22ain oed, dygwyd ef trwy gyfryngwriaeth caredig y Parch. Nathaniel Phillips o Derby, i gyffyrddiad a'r gynnulleidfa yn Evesham, lle y dewiswyd ef yn fugail yn union. Tua 25ain mlynedd ar ol hyn cyhoeddodd "Particulars of the Life of a Dissenting Minister, &c.," ac ymddengys ei fod yn hwn yn trin ei gynnulleidfa yn arw. Y mae Gwnionydd yn camsynied pan y dywed fod "amryw argraffiadau o hono wedi dyfod allan ;" ni chyhoeddwyd ond un argraffiad a thynwyd hwnw o gylchrediad cyn hir, fel yr aeth yn fuan yn brin iawn. Rhoddodd ei weinidogaeth i fyny yn Evesham, yn 1790, o herwydd ei fod wedi newid ei farn mewn perthynas i fedydd plant. Derbyniodd *diploma* LL.D., o Brif-Ysgol Glasgow. Bu farw yn Llanbedr, a chladdwyd ef yn Llanwenog, lle mae cof-faen hardd iddo, ac arni "To the memory of the Rev. Charles Lloyd, LL.D. of Coedlanau Fawr. Born 18 December, 1766, died 23 May, 1829." Yr un person oedd Dafydd Llwyd, Brynllefrith, a Dafydd Llwyd, Llwynrhydowen, ac nid dau berson gwahanol fel y gellir casglu oddiwrth *Eiriadur Bywgraffyddol* J. T. Jones.

Mewn llythyr sydd ger fy mron dyddiedig, "Lampeter, April 30, 1828," a chyfeiriedig at "Mr. Rees Jones, Nantyrhew-menyn, Rhydowen." Mae Dr. Charles Lloyd yn taer gymhell y priodoldeb o gael "cyhoeddiad misol" at wasanaeth Undodiaeth, ac heb gelu yr amcan fel yr ydys wedi gwneuthur yn Lloegr. Dywedai y byddai defnyddiau y rhifyn cyntaf yn barod erbyn y cyntaf o Fehefin, a dywed fod cynnyg o'r fath wedi methu ychydig flynyddau yn ol, o herwydd fod pob un am gael ei ffordd ei hun. Mae yn cymmeradwyo y Parch. John Thomas, Llandyssul, fel Golygydd; nid yw yn gwybod am neb mor gymhwys ac addas yn mhob ystyr, yn enwedig o herwydd ei gydnabyddiaeth helaeth â duwinyddiaeth, ei bwyll, ei farn (*judgment*), &c. Yr oedd ei bris i fod yn dair ceiniog, ac nid oedd gan y Dr. yr un amheuaeth na ellid gwerthu 500.

Mae y Golygydd mewn olysgrif yn sylwi ar lythyr W. Jones a J. Francis, Llanelli, yn *Seren Gomer*, 1834, tud. 170, mewn perthynas i gyhoeddiad Undodaidd fel hyn: "Buom yn ymddyddan ag Undodiad yn ddiweddar ar y pwnc hwn, a dywedai wrthym ei fod wedi bod dan sylw y gweinidogion eisoes; a'u barn hwy oedd, gan eu bod mor anaml yn Nghymru i gynnal cyhoeddiad eu hunain, a bod *Seren Gomer* mor anmhleidiol, nad oeddynt yn gallu canfod un angenrheidrwydd anhebgorol am y cyfryw beth; yn neilldu pan ystyrient fod eu hysgrifeniadau yn cael eu gwasgaru yn llawer mwy helaeth trwy gyfrwng y *Seren*, nag y gallent fyth obeithio gwneyd trwy gyfrwng un cyhoeddiad o'u heiddo eu hunain, yr hwn na ddarllenid gan nemawr heblaw Undodiaid."

Os nad wyf yn camgofio, yn 1834 yr ail-adeiladwyd Pantydefaid, a thraddodwyd y bregeth gyntaf yn y capel newydd gan y Parch. Thomas Rees, Blaengwrach, yr hwn a fu farw yn 1840, yn 27ain oed. Mab oedd Mr. Rees i Rees Rees, o Gilgell-isaf, ger Llanbedr. Dro arall yr wyf yn gobeithio y gallaf roddi testun y bregeth yn nghyd a rhai manylion ereill.

Dywedir fod llais y Parch. Dafydd Llwyd o Lwynrhydowen, yn wahanol iawn i eiddo Mr. Davis, Castell Hywel. Llais main, gwichlyd, oedd eiddo Mr. Davis, ac nid llais mawr, cryf, fel y dywed y Carw Coch yn Nghofiant y Parch. Thomas Morgan, Blaengwrach. Fe ddywedir fod llais Dafydd Llwyd yn glywadwy ar ben milldir o ffordd.

Gorphenaf 16, 1841, yn ol *Seren Gomer*, lle mae cofiant helaeth, bu farw Catherine Rees, o Gefncoedycymmer, yn 81 mlwydd oed. Yr oedd yn ferch i John William Thomas, yr hwn a fu yn aelod ffyddlawn yn yr Hen-dy-Cwrdd am lawer o flynyddoedd. Pan tua 15 oed, hyny yw yn 1775, dechreuodd fyned i'r Ysgol Sul yno. Derbyniwyd hi yn aelod gan Mr. Phillips (Charles,) pan tuag 20 oed, a pharhaodd yn aelod hardd a defnyddiol am yspaid 60 mlynedd. Priododd ag un Edward Rees, saer meini, pan tua 24 oed, a pharhaodd eu bywyd priodasol ryw 40 mlynedd. Dyry y nodyn yma foreuach *date* i'r Ysgol Sul yn ein plith nag un arall y gwn i am dano.

Cawn yn llythyrau Anna Beynon yn ol fel maent wedi eu hargraffu, mai mab y Goitre oedd Jenkin Jones, Llwynrhydowen; ond y mae'r Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, o'r farn mae gwall argraffyddol yw Goitre ac mai Gostre a feddylir. Yn awr, y mae Gostre yn Llangeler. A oes dim modd dyfod o hyd i amseriad a man genedigaeth J. J. oddiwrth hyn? Bu farw 1742, ond ni wyddys beth oedd ei oedran y pryd hwnw. Yr oedd yn fyfyriwr yn ngholeg Caerfyrddin pan gyhoeddodd "Llun Agrippa" yn 1723, ac wrth bob tebyg yn tynu at derfyn ei efrydiaeth. Mae yn debygol felly iddo fyned i'r Coleg tua 1719 neu 1720. Ond beth oedd ei oedran yn myned i'r Coleg? Yr oedd yn debyg o fod dros 16; mae yn bossibl ei fod o'r 20 i'r 26. Yn awr, pe gwnelai rhywun ymchwiliad i lyfrau Eglwys Llangeler o 1694 hyd 1704, nid yw yn anmhossibl na cheid *entry* am fedydd Jenkin Jones, a phenderfyniad ar bwnc ei oedran. Byddai yn ddymunol cael hyn. Nid wyf yn credu fod un sail i sylw Gwynionydd, fod Jenkin Jones wedi ei eni yn Llanwenog.

Nid oes fawr *chantio* yn awr yn Nghymru oddigerth feallai yn Eglwys Loegr; ond y mae yn dra thebyg fod *chantio* wedi bod yn gyffredin iawn un amser; ac y mae arwyddion y bydd yn fuan etto mewn arferiad cyffredin yn mhlith y gwahanol enwadau. Y Proffeswr Rhys yr wyf yn meddwl sydd wedi taflu yr awgrymiad allan ei fod wedi gadael ei ol ar aceniad yr iaith. Rheol y Gymraeg yw fod yr acen ar y sill olaf ond un, a'r awgrymiad yw, fod y rheol yma wedi codi oddiar yr arferiad o *chantio* neu gor-ganu yn mhlith yr hen Gymru.

Mae hen weddel boblogaidd yn ein plith fod gan ddyn wedi bod unwaith gynffon; ac fe ddywedir fod rhai cenedloedd cyfain a chanddynt gynffon. Arglwydd Monboddo onide sydd yn galaru na fuasai gan ddyn gynffon? Buasai yn addurn gwerthfawr iddo, a mwy na hyny, meddai, beth allai fod yn fwy desgrifiadol ac awgrymiadol? Mor argraffiadol y dangosai deimladau dyn—ei gariad neu ei gas, ei lawenydd neu ei alar. Yn ol rhai collodd dyn ei gynffon trwy eistedd arni. Dywedir fod cynffonau wedi tyfu ar rai o bobl Kent yn yr hen amser, fel cosp am eu bod wedi *insultio* Thomas à Becket, a chreda llawer hyd y dydd heddyw fod cynffonau gan bobl Cernyw. Yn ol tystiolaeth Vieyra, yr oedd Satan heb un gynffon cyn ei godwm. Mae yn ddigon possibl fod tipyn o chwedl dosparth y Medde Nhw ar lawer o'r hyn a glywir ac a ddarllenir ar y pwnc hwn, etto, nid oes dim sydd yn anmhossibl nac yn annhebygol yn y dybiaeth fod gan rai dynion ddadblygiad cryn helaeth o'r elfen gynffonol yma. Mae yn hyspys i naturiaethwyr, ac i lawer nad ydynt yn ymffrostio yn yr enw hwnw, fod ar barth isaf asgwrn y cefn elfenau amlwg o rywbeth tebyg iawn i gynffon, ac yn hwn, yr asgwrn neu yr esgyrn yma (os coccyx) y mae rhai wedi gweled arwyddion perthynas dyn i greadur arall sydd yn wastad yn cario cynffon gydag ef.—Gweler Gofyniad 7, tud. 23.

Yn "Early England" a gyfeiriwyd ato yn barod (tud. 248), dywedir, "Nid ydym yn gwybod llawer am gynbreswylwyr Lloegr, gan nad oes un hanes yn dywedyd dim wrthym am danynt; ond oddiwrth y gweddillion o honynt, eu hoffer a'u harfau, y rhai ydynt yn cael eu twrio i fyny weithiau, yr ydym wedi gallu cael rhywbeth allan. Pobl fychain oeddynt, tebyg i'r Esquimaux, ac yn defnyddio arfau o gallestr (*flint*) ac asgwrn. Yr oeddynt yn helwyr mawrion, ac yr oedd rhai o honynt yn gannibaliaid. Yr oeddynt yn byw mewn ogofeydd ac ar hyd glanau y môr a'r afonydd. Yn yr ogofeydd yma, ac yn y crugiau mawrion o gregin a orweddant gerllaw lle'r oedd eu bwthynod, yr ydym yn cael yr esgyrn a'r gweddillion a ddywedant rywbeth wrthym am danynt. Yn eu dyddiau hwy, yr oedd Lloegr yn llawer oerach nag yw yn awr, a llawer gwylltach. Yr oedd llawer iawn o anifeiliaid gwylltion yn byw yma, megys yr hyena, y llew, y rhinoceros, yr elephant, y rhai ydynt wedi diflanu er ys llawer dydd. Nis gwyddom pa bryd y daeth y bobl yma i Loegr, ond rhaid fod amser mawr oddiar hyny."

Yr Esgob Parry gyhoeddodd yr ail argraffiad o Feibl Dr. Morgan yn 1620, gan ei ddiwygio mewn llawer o fanau, ac a newidiodd y gair *crythau* yn Dad. v. 8, i phiolau. Cymharer yr hyn a ddywedir yn YMOFYNYDD, Chwefror, 1878, tud. 234 â'r sylwadau canlynol: Mynai Ames mai o'r Saesneg y cyfieithwyd y Beibl Cymreig; ac fel prawf cymmer y gair *crythau* uchod, yr hwn meddai a ymddangosodd yn argraffiad 1567. Eiddo W. Salesburi yw cyfieithad 1567, ac fel hyn mae yr adnod ynddo: "Ac yr ydoedd gan bob un o honynt *telynau* a phiolau aur yn llawn o erogley." Dr. Morgan, 1588, sydd yn darllen: "Ac yr ydoedd gan bob un o honynt *delynau* a *chrythau* aur yn llawn o arogldarth." Awgrymir gan Ames fod y gair *feiol—violin—fiddle* wedi ei gamddeal am *vial*. Cyfeirir at y gwall tybiedig yma o eiddo Ames gan Dr. Llewelyn, ond nid yw y Dr. yn gallu amddiffyn priodoldeb y gair. Gwneir hyny yn foddhaol fodd bynag gan y Parch. Eliezer Williams, yn y *Cambrian Register*: "*Crw*—crwth, yn fenywaidd *croth*; *crw—crwm*—crymau. Crwth cerdd, crwth halen. *Crwth* felly yw unrhyw *lestr* neu flwch o gynnwysiad. Un plisgyn ŵy a wna ddau *grwth* ond ei drychu yn ei hanner. * * * Paham gan hyny nad *crythau* oedd *phiolau* St. Ioan yn y Dadguddiad?" Ar dystiolaeth rhyw Gymro yn ddiamheu yr ysgrifenai Ames, ac ni wyddai y Cymro hwnw ond am "grwth a thelyn."—*Cofiant Dr. Llewelyn yn Seren Gomer*, 1855. T. C. U.

LLAFUR ydyw cyfraith y bydysawd, ac mae'r hwn sydd yn byw yn unig trwy offerynoliaeth pobl ereill o lai defnydd i'r byd na'r wenynen neu hyd y nod y gylionen.

DIWYDRWYDD.—Pan fyddoch yn chwilio am orchwyl, cofiwch fod y dynion o'r iawn ryw yn wastad a galw am danynt, ac mae anfynych y ceir diwydrwydd a gallu yn myned yn llaw-wag.

GEIRIAU CARUAIDD.—Peidiwch byth gwahanu heb eiriau caruaidd i feddwl am danynt yn eich absenoldeb. Mae'n bossibl na chwrddwch byth mwy yn y bywyd hwn.

PEIDIWCH ABSENU.—Dywedwch can lleied ag y byddo modd am eich cymmydog, neu am yr hyn a berthyn iddo, os na fydd cyfleusdra yn ymgynnyg i ddywedyd rhyw dda am dano.

ISLWYN.

Yw Islwyn wedi marw?
Ynte breuddwyd yw?
Rhyw lais breuddwydiol ar fy marwol glyw?
Rhy wir, rhy wir: mae Islwyn yn ei fedd,
Yr anwyl un, o siriol, serchog wedd.
Bu rhyngom ymgom bêr o dro i dro,
Wrth rodio yn nghyd ar hyd y brydferth fro
Lle y preswyliai ef: prydferthach lle,
A mwy dewisol, nid oes dan y ne'.

Os byth bu diniweidrwydd yn y byd,
Corfforid ef yn Islwyn ar bob pryd.
Ei dalent fawr, nis byth dangosai hi:
Mor wylaidd oedd—ni fynai fydol fri.
Pan ereill a ymffrostient yn eu dawn,
Gwrandawai ef yn dawel, addfwyn iawn,
Heb yngan gair o enllib nac o glod,
Yn ei unigedd tawel carai fod.

Desgrifiai natur yn ei harddwch maith,
A'i mawredd, mewn arddunol, nerthol iaith;
Esgynai i fyny mewn myfyrdod pêr,
Trigianai ei ddychymyg yn y sêr.

Ac etto o gydymleimlad pur yn llawn,
Yr oedd tosturi ynddo ef yn ddawn.
Y llygad siriol: O mor siriol ef!
Ac ynddo ysprydoliaeth nef y nef;
A hael ymdeimlad at bob enaid byw,
Heb ragfarn gul at neb o ddynolryw.

Ond natur yn y mawr agweddau sŷn
A wisga hi ar ddôl ac uchel fryn—
Y rhai'n a hoffai—yma ar bob awr
Yr oedd cartrefle hoff ei feddwl mawr.
Y dymhestl arw ar ei garwaf wedd
A fu'n hyfrydwch iddo hyd ei fedd.

Darluniai'r dymhestl gyda chariad hên,
Gan weithiau ei desgrifio gyda gwên;
Bryd arall, braw ac arswyd guddiai'i ael:
Ond fyth y storm ofnadwy fynai gael.
Chwyrnellai'r dymhestl erchyll lawr y glyn
Lle y preswyliai ef, a'r adeg hyn
Croniclai ef yn ei farddonol fryd
Y dymhestl hyll yn ei hagweddau i gyd.

Fe garai'r storm fel cara mam ei merch,
Fe'i carai fwyaf pan yn fwyaf erch:
'Roedd Mynydd Islwyn iddo ef yn sedd
Lle y darllenai natur ar bob gwedd.

Ti aethost at y rhai a garet ti,
A'th garent hyd y nod yn fwy na mi—
A hyny oedd yn fawr. Ond ar dy ol
Ni ddeuwn oll.

Mae yna un a gynt adwaenet ti,
Os cwrddyd wnewch ar dir y gwynfyd fry,
Llon fydd eich cyfarch, maith eich ymgom [bêr
Am lawer dedwydd awr islaw y sêr.

* * * * * *

MARLES.

RHYFEDDODAU.

GENIR rhai personau â chwe bys ar bob llaw a'r un rhif ar bob troed. Mae rhai â bysedd eu traed yn gyssylltiedig â'u gilydd yn debyg fel y mae eiddo gwydd neu hwyad. A chlywais wedi dechreu ysgrifenu y llinellau yma am ferch ieuanc yn byw yn Tenby, â bysedd eu dwylaw yn gyssylltiedig felly. Ceir rhai dynion â dim ond un aren ganddynt, tra mae gan ereill dair. Mae gefelliaid yn fynych yn ddiffygiol yn rhyw ystyr neu gilydd. Adwaenem ddau frawd ag oeddynt yn ddiffygiol o'r gallu i arogli yn un ffroen yn unig—y naill yn ddiffygiol yn y ffroen ddeheu, a'r llall yn y ffroen chwith, tra'r oedd y ffroen arall yn berffaith gan bob un o honynt. Ceir rhai dynion yn ddiffygiol o'r gallu i arogli yn rhanol yn unig; gallant arogli rhai pethau, tra na allant bethau ereill. Adwaenwn un nad yw erioed wedi arogli y ddrysien ber. Mae yn perthyn i gyfansoddiad hwnw amryw neillduolion ereill; ni feiddia gyffwrdd ag un math o fwyd blawd ceirch, nac â chyrens duon yn un ffordd, nac ag un math o bysgod cregin; mae gwneuthur hyny yn peru fod math o frech yn codi drosto bob tipyn. Dywed hen ddiareb fod bwyd un yn wenwyn arall, ac y mae yn eithaf gwir i raddau mwy neu lai. Oddiar hyny y mae y casgliad yn naturiol y dylai dyn wylied ei gyfansoddiad ei hun yn ofalus, a dal sylw ar y pethau ydynt yn annghytuno âg ef, fel ag i ymgadw oddiwrthynt. Ni feiddia rhai gyffwrdd â chaws, mae hyd y nod ei arogl yn peru salwch arnynt, ac y mae ystymogau rhai ereill mor hynod barticil fel na feiddiant gyffwrdd â thamaid o goes maharen wedi ei bobi heb fyned yn glaf. Clywais yn ddiweddar am un person sydd yn meddu y nodwedd ryfedd o "gnoi ei gil." Ar ol llyncu ei fwyd, cyfyd ef i fyny drachefn i'w gnoi, yn debyg fel y gwna'r defaid neu'r da.

THOMAS EDWARD, Y NATURIAETHWR YSGOTAIDD.*

I LAWER o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD y mae enw a hanes y dyn hynod yma yn adnabyddus. Gall fod rhai fodd bynag nad ydynt yn gwybod dim am dano; ac i'r cyfryw bydd hanes fer yn ddyddorol ac yn adeiladol. Ganwyd Thomas Edward, Rhagfyr 25, 1814, yn Gosport, Portsmouth, lle yr oedd y *regiment* i'r hwn y perthynai ei dad yn dygwydd bod ar y pryd. Wedi brwydr Waterloo, disbandiwyd y *militia* a dychwelodd John Edward i Kettle at ei wraig a'i blentyn, a chymmerodd i fyny ei hen grefft o wehydd cotwm. Ni arosodd yma yn hir fodd bynag, gan nad oedd ei wraig yn caru y lle a bod gwaith yn brin. Symmudodd i Aberdeen, lle genedigol ei wraig, a sefydlodd mewn lle a elwid y Green. Wrth odre yr heol rhedai y Denburn, ffrwd fechan; ac heb fod yn mhell, gerllaw genau y Dee, yr oedd yr *Inches* dros y rhai y rhedai llanw y môr bob dydd.

Dyma y ddau brif fan lle y mynychai y naturiaethwr ieuanc ar y cyntaf, ac a brofasant yn ffynnonell o'r fath ddyddordeb diddarfod iddo yn nyddiau ei fabandod. Mae yn amlwg fod Thomas Edward yr hyn a allwn ei alw yn naturiaethwr genedigol. Nid un wedi ei gael —nid un wedi ei gwrteithio, oedd ei chwaeth. Yr oedd ei gariad at natur, yr hwn a ymddadblygodd nes dyfod yn reddf holl-gynnwysfawr, yn wastad yn gynenid ynddo, a rhoddodd arwyddion boreu o'i fodolaeth a'i nerth. Pan ond pedwar mis oed neidiodd o freichiau ei fam yn yr ymgais ofer o geisio dal cylion a sïent ar y ffenestr. Yr oedd yn anesmwyth iawn, a chadwai ei fam mewn ofn parhaus o barthed i'w ddyogelwch. Cynted y gallai gerdded, yr hyn a wnaeth yn ddeng mis oed, arferai dreulio rhan fawr o'r dydd yn chwilio am yr holl bryf a'r anifeiliaid a allasai ddyfod o hyd iddynt. Gwnaeth gyfeillion o holl hwyaid a gieir y pentref. Yr oedd, fodd bynag, un creadur mwy peryglus y ceisiai wneyd adnabyddiaeth o honi, sef hwch, yr hon a wyddid ei bod yn ffyrnig iawn. Yn fynych pan y gwelid ei eisieu, ceid ef yn edrych i mewn arni trwy y *railing*. Yr oedd ei fam yn ofni y gwnai yr hwch ei niweidio trwy gnoi ei wyneb neu ei ddwylaw, ac felly yr oedd wedi ei rybuddio lawer gwaith i beidio myned yn agos. Un diwrnod diflanodd Tom; chwilid am dano trwy yr holl gymmydogaeth ond i ddim pwrpas. Nid oedd ar y pryd nemawr dros flwydd oed. Tybiai rhai ei fod feallai wedi cael ei ddwyn gan y Sipsiwn, yn debyg fel y cafodd Adam Smith, awdwr y *Wealth of Nations*. Penderfynwyd talu ymweliad â hwy. Gwadai y rhai hyny y cyhuddiad yn y modd mwyaf digllawn a thriniasant y cyhuddwyr yn llym iawn. Dychwelwyd i Kepple mewn cyflwr truenus. Yr oedd pob gobaith o gael gafael

* "The Life of a Scotch Naturalist, Thomas Edward, Associate of the Linnaean Society, by Samuel Smiles, Author of "Lives of the Engineers." London: John Murray, Albemarle St. 1877.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL VI.

1878—9.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.

1879.

CYNNWYSIAD.

Aben Hassan - - - - - - 189
Adolygiad, Yr - - 161, 185, 209, 258
Addoliad - - - - - - - 157
Afradlawn, Yr - - - - - - 4
Addysg i'r Ysgol Sul - - - 10
Anerchiad i'r Ysgol Sul - - - 62
Amddiffynwyr Offeiriadol- - - 145
Amser, sut i'w dreulio - - - 206
Arweiniad i'r Testament Newydd 25, 49, 104, 123, 173, 193, 223
Athrod - - - - - - - 59
Awyriad Anneddau - - - 258, 260
A ydyw'r athrawiaeth o boenau tragywyddol yn gysson a chymmeriad Duw fel Tad - - - - - - 199

Barddoniaeth 4, 20, 23, 31, 48, 71, 79, 96, 101, 120, 144, 148, 168, 184, 189, 192, 198, 205, 214, 222, 263, 270, 273, 284
Barn bersonol a'i hawl - - - 57
Bwyd rhad yn amser prinder - - 279
Byddwch yn rhywbeth - - - 13

Cariad Mam - - - - - - 253
Cartref y Gweithiwr - - 246, 260
Ceisiwch am eich nod - - - 17
Cofiant y Parch. Titus Lloyd - 217, 222
Cofiant Mr. Rees Price, Aberdar - 145
Cyfarfodydd Chwarterol 15, 73, 139, 210, 280
Cymdeithas rhyddhad crefydd - 255
Cystudd - - - - - - - 101
Cythrwfl yn Llanelly gynt - - 138
Cyssuron yr Efengyl - - - 180
Cyprus - - - - - - - 251

Dedwyddwch Tragwyddol - - 8
Diddymiad y Test & Corporation Acts 79
Difaterwch Crefyddol - - - 1
Dihunwch - - - - - - 21
Duw a Mammon - - - - 156
Duw yn meddwl dyn - - - 4
Dyn fel llyfr - - - - - 260

Emynau Cynauaf - - - - 57
Emynau yr Ysgol Sul - - - 192
Egwyddorion Undodiaeth - - 241

Ferch, Y - - - - - - - 66

Geiriau mwyn - - - - - - 159
Genedigaeth - - - - - - 24
Gogoniant Duw yw ei ddaioni (pregeth) 169
Gohebiaeth o'r Amerig - - - 101
Gohebiaethau - - 23, 214, 224, 281
Gweithiau Duw a gweithiau dyn - 259
Gweledig a'r anweledig - - - 60
Gwleidiadaeth - - - 163, 214

Hanes y Cread yn ol Gwyddor - 229
Hanesion 21, 45, 68, 92, 116, 141, 165, 190, 213, 237, 261, 282
Hereticiaid Gogleddol - - - 30
Hynafiaethau - - - 17, 245, 270
Holiedydd, Congl yr- - - 23, 68

Iechyd - - - - - - - 30
Iechyd Gyfreithiau Moses 82, 109, 127, 158
Islwyn - - - - - - - 273

Llwynrhydowen, Yr Helbul - 111, 120
Llyfr - - - - - - - 138

Manion - - - - - - 67, 260
Marwolaeth - - - - - - 14
Marwolaeth y dywysoges Alice - 257
Marwgofion 24, 46, 68, 94, 118, 142, 166, 191, 214, 238, 262, 282
Myfyrwyr Ysgotaidd - - - 250

Nerth dros y dydd - - - 148

Pio Nono, y Pab - - - - - 9
Priodasau - - - 191, 239, 283
Pregethwr Taranllyd - - - 136
Pum munyd yn rhy ddiweddar - 40

Rhodio gyda Duw - - - - 270
Rhyfeddodau - - - - 273
Russell, Iarll - - - - 97

Tanchwa Abercarn - - - 194
Thomas Edward, y Naturiaethwr Ysgotaidd - - - - - 274
Toriaid ac arian y wlad - - - 254

Ufudd-dod plant i'w rhieni - - 207
Undodiaeth yn Neheudir Cymru - 226

Wesley, ffeithiau am dano - - 65

Y Grefydd mae yr oes yn ymofyn - 265
Y llwybr cerygog - - - - 12
Y Pab diweddaf a'i rag-flaenwyr - 44
Y prif rwystrau ar ffordd Undodiaeth 121, 177
Yr haul a'r cwmmwl - - - 16
Yr Ysgol Sul - - - 10, 62, 228
Yr Undeb Cynnulleidfaol - - 89
Ymddygiad gwarthus offeiriad - 182
Ymddyrchiadau duwinyddol - - 87
Ymrysonau cymmydogion - - 154
Yspryd rhyfel ac yspryd Crist - - 36

arno yn y cyfeiriad yma ar ben, a phan yr oeddynt yn parotoi i fyned i gyfeiriad arall cawsant eu cyffroi gan ysgrech ddisymwth tu allan i'r tŷ, a rhedodd perchen yr hwch i mewn â'r plentyn yn ei breichiau. "Dyna, fenyw, dyna dy blentyn di; ond er mwyn Duw, cadw ef i ffwrdd o hyn allan, neu gall fod yn waeth arno y tro nesaf." "Pa le yr oedd?" gofynid ganddynt oll, ar yr un anadl. "Pa le, ond dan Bet â'i moch bach."

Pan ofynwyd un tro i Edward am ddechreuad ei serch fel naturiaethwr, efe a ddywedodd:—"Digon tebyg ei fod wedi dechreu yn yr un cynhyrfiad mewnol a'm cymhellodd i ddal y cylion yn y ffenestr. Y rhywbeth anweledig hwn—y bodolaeth deublyg yma, neu galwch ef beth a fynoch, sydd yn reddfol ynom oll, pa un a ddefnyddir ef er da ynte er drwg, yr hwn a gynhyrfodd y baban anymwybodol yn ddiamheu, i geisio gafaelu yn y creaduriaid byw cyntaf a welodd erioed—y rhywbeth yma a dyfodd yn y dyn i fod yn reddf anorchfygol, ac a gynnyrchodd ynddo awyddfryd anniwall am fod yn mhlith y cyfryw bethau. Dyma yr unig reswm y gallaf fi roddi am fy mod wedi dod yn garwr Natur ac nis gwn am un arall."

Pan symmudodd y teulu i Aberdeen, yr oedd Edward bach yn ei ogoniant. Yr oedd yr Inches yn guddiedig a gwimon o bob math, a phethau ereill a dyfant yn y môr; ac yn y sianelau rhyngddynt yr oedd cyflawnder o grancod, llyswenod, ac abwyd. Yn y Denburn yr oedd digon o frogaod, gelod, a chreaduriaid ereill; ac etto yn y crugiau lludw, ysgubion y dref ychydig uwchlaw yr *Inches* yr oedd cyflawnder o chwilod duon, llygod ffrengig, adar tô, a llawer math o gylion. Gellid gweled y bachgen bob dydd yn tynu tua'r lleoedd yma, ac yn dychwelyd wedi ei lwytho â "bwystfilod gwenwynig" fel y galwai y cymmydogion hwy. Ar y cyntaf yr oeddynt yn gynnwysedig o chwilod, brogaod, malwod, a chrancod; ond fel y daeth yn henach, dygai adref lygod ffrengig, gelod, newts, moch daear, adar a nythau. Yr oedd rhai o'r creaduriaid yma yn achos o drafferth parhaus i'r cymmydogion; am nad oedd ganddo le i'w cadw, diangent, a cheid hwy yn crwydro yn mhob cyfeiriad. Ymresymwyd â'r bachgen a rhybuddiwyd ef. Taflodd ei fam ei elod a'i grancod allan, a gwaharddwyd ef yn bendant i beidio dod a dim o'i "fwystfilod" i'r tŷ drachefn. Nid oedd o un dyben. Nid oedd na gair na chwff a gaffai un effaith arno, a phenderfynwyd ei gadw i mewn gymmaint ag oedd yn bossibl. Llwyddodd Tom fodd bynag i ddianc pob gwyliadwriaeth, ac yr oedd fynychach allan nag i mewn. Weithiau dodid ef i siglo y cawell tra byddai ei fam yn myned i wneuthur rhywbeth yn yr ystafell arall. Ar ei dychweliad cawsai fod y gwr ieuanc wedi diflanu. Yn anfynych y gellid ei gadw i chwareu gyda'r plant ieuengach, ac yn anfynych cyflawnai neges. Unwaith danfonwyd ef â brecwast i'w dad, ond yn lle myned yno, aeth tua Stocket, dwy filldir o'r dref, gyda dau fachgen arall i chwilio am adar.

Fel cosp am ei amrywiol ddrwgweithredoedd, dywedwyd wrtho un boreu ei fod i gael ei gadw i mewn trwy y dydd. Ni roddwyd ond rhan o'i ddillad iddo, ac fel sicrhad pellach, cylymwyd ef wrth y bwrdd, a chylymwyd ei arddyrnau wrth eu gilydd. Cyhyd ag yr oedd ei fam ar

bwys, yr oedd yn llonydd. Can gynted fodd bynag ag yr aeth hi allan ar ei goruchwylion teuluaidd, efe a ryddhaodd ei ddwylaw yn ddeheuig iawn, a thrwy berswadio a bygwth cafodd gan ei chwaer fach, yr hon oedd wedi ei gadael i'w wylied, i'w helpu i gael y bwrdd at y tân. Yna gosododd y cordyn a'i dyogelai, rhwng y barau, a rhyddhaodd ei hunan. Aeth wed'yn i geisio am ei ddillad, ac wedi methu eu cael, gosododd hen got am dano, yr hon oedd lawer yn ormod iddo, ac wedi gweled ei gyfleusdra, efe a ruthredd allan, fel yr oedd ei fam yn dyfod i mewn dan sgrechain. Yr oedd y bwrdd ar dân. Yn ei frys yr oedd wedi annghofio diffodd y rhaff, yr hon oedd etto wrth y bwrdd.

Yr oedd y bachgen yn gwbl anwelladwy, yn benderfynol ac yn ystyfnig. Nis gellid ei gadw gartref, ac nis gellid ymddiried un neges iddo. Cymmerai ei "fwystfilod" i fyny ei holl feddwl. Penderfynodd ei dad o'r diwedd ei amddifadu o'i holl ddillad. Felly pan gododd un boreu cafodd nad oedd ganddo ddim i wisgo. Yr oedd mewn gofid tost. Pinodd ei fam hen bais am ei wddf gan deimlo yn argyhoeddedig y byddai yn ddyogel gartref y diwrnod hwnw. Ond na. Cynted yr aeth ei fam lawr i'r steirau, cylymodd gordyn am ei ganol, fel ag i hwylysu ei symmudiadau, ac wedi gweled ei gyfleusdra, ffwrdd yr aeth at ei hen orchwyl o hela crancod, &c.

Pan ddaeth ei dad adref y noson hono, tarawyd ef â'r syndod mwyaf, pan gafodd fod Tom allan, ac nis gallodd gyffwrdd â'i swper. Yr oedd ei fam wedi bod mewn picil tost trwy y dydd. Yr oedd ar Tom ormod o ofn i fyned adref yn union y noson hono, ac felly aeth i dŷ cymmydog. Gwyddai y wraig hono am ofid ei rieni, ac aeth ffwrdd yn union gyda'r newydd, a begianodd arnynt beidio ei geryddu. Ar hyn gwnaeth Tom, yr hwn oedd wrth ei sodlau bob cam, ei ymddangosiad yn y tŷ. Cafodd ei olwg chwithig, a'i wisg ryfedd yn faw drosti, y fath effaith ar ei dad fel y torodd allan i chwerthin. Diolch am hyny, diangodd Tom heb un gosp. Dranoeth dywedodd ei fam wrtho, os beiddiai adael y tŷ y cadwynai hi ef. "Ond," meddai Tom, "nid oes genych un cenel." Nid oedd gan Tom un meddwl am ddim yn cael ei gadwyno ond cŵn. "Na feindiwch," meddai ei dad, "mi a'ch cadwynaf chwi."

Ni theimlai Tom un awydd i fyned allan y diwrnod hwnw. Yr oedd wedi cymmeryd anwyd, a'r canlyniad fu twymyn boeth. Yn ei goll yr oedd o hyd yn siarad am ei greaduriaid, a'r cwestiwn cyntaf a ofynodd pan ddaeth ato ei hunan oedd: "Mam, pa le mae'r crancod ddaethum i adref neithiwr?" Yr oedd y neithiwr hyny dri mis yn ol.

Cynted y daeth yn ddigon cryf, yr oedd Tom wrth ei hen waith etto. Crwydrai oddiamgylch, a daeth i wybod am holl gilfachau y coedydd a'r cloddiau, y nentydd a'r goredi, yn nghymmydogaeth Aberdeen. Pan gollai y bechgyn ereill nyth, yr hewcyn Edward oedd wedi ei chymmeryd. Am hyn cafodd yn fynych ei lachio, er nad oedd ond pedair blwydd oed. Dygodd gwybodaeth Tom am nythau adar, lawer o adnabyddiaeth yn mhlith y bechgyn, i fyned gydag ef yn ei ymgyrchfaoedd. Crwydrai yn fynych fodd bynag yn hollol annghofus o amser nes oedd yn hwyr iawn. Ar amserau felly aethai rhieni y bechgyn yn bryderus iawn, a chan y gwyddent mai Tom oedd yr achos, gwahardd-

ent hwy yn bendant i beidio myned gydag ef. Yn fynych, yn wir, daethai Tom adref wrtho ei hun, hyd y nod pan fyddai bechgyn ereill wedi myned gydag ef yn y boreu.

Yr oedd Tom rhwng pedair a phump pan ddechreuodd fyned i'r ysgol. Anfonwyd ef yn benaf er mwyn ei gadw o ffordd y drwg. Nid oedd yn caru yr ysgol, a cheid ef yn fynychach yn marchnad y pysgod nag o dan ofal yr hen Feistres Hill. Ni fu yn hir gyda hi ychwaith cyn iddo wneuthur ei hunan yn achos o ddychryn mawr i'w gyd-ysgolheigion. Carent ei icir bach yr haf (butterflies) a'i flodau, ond ychydig o honynt a garent gael eu cnoi neu eu rhwygo gan ei greaduriaid ereill. Pan ddaeth Mrs. Hill i wybod am ei "fwystfilod," gwaharddodd iddo ddod â dim rhagor yno. Ond annghofiodd Tom ei addewid yn fuan a daeth â hwy fel o'r blaen. O'r diwedd daeth â Jackdaw. Nid oedd wedi meddwl am anesmwythder a mwstwr y creadur. Yr oedd gydag ef yn ngwast ei drowser. Ar amser gweddi aeth yr aderyn yn anesmwyth a dechreuodd wneuthur swn. Ffyrnigodd Mrs. Hill yn ofnadwy. Ymaflodd ynddo gerfydd ei goler a gwthiodd ef allan dros y drws. Wedi hyny, danfonwyd ef i ddwy ysgol arall, a chafodd ei anfon i bant o bob un o'r ddwy. Mewn cyfiawnder i Tom, fodd bynag, rhaid dywedyd iddo gael ei gamgyhuddo yn yr ail ysgol. Yr oedd yn gwbl ddiniwed o fod wedi dod â neidr gant troed i'r ysgol. Yr oedd wedi ennill cymmeriad mor ddrwg yn y cyfeiriad yma, fel yr oedd yn cael ei ddrwgdybio yn union y gwelid creaduriaid o'r fath oddeutu. Taer ddymunai ei dad iddo fyned yn ol i'r ysgol. Ciliodd y diwrnod cyntaf, ac ar yr ail pan yr oedd ei fam ar fyned ag ef, a Tom yn llefain yn dost, gofynodd iddo paham yr oedd mor anfoddlon i fyned. Adroddodd yr hanes, a dangosodd iddi ei gefn, yr hwn oedd yn glwyfau nes oedd ei grys yn cydio oddiwrth y cerydd a dderbyniasai. Dyna ddiwedd ar ysgol Tom. Yr oedd ganddo ddigon o amser bellach i grwydro ble mynai. Aethai ar hyd glenydd y Don a'r Dee, a chymmerai deithiau hirion ar hyd glan y môr ac i fyny i'r mynyddau. Yn ystod ei grwydriadau ar fynydd y Torrie, tra yn chwilio am fwyar duon, gwelodd rywbeth tebyg i lysŵen yn myned heibio iddo. Wedi llawer o chwilio daeth o hyd iddi dan grug o geryg. Cymmerodd ei *brize* adref mewn gorfoledd, gan achosi dychryn i bawb a ddeuai yn agos atynt. Fel y gall y darllenydd farnu nid oedd y llysŵen a achosodd gymmaint o derfysg, yn ddim amgen na neidr wenwynig.

Yr oedd y bachgen yn dysgu arferion o segurdod. Yr oedd o hyd am fyned i weithio, ac o'r diwedd caniataodd ei rieni iddo fyned gyda ei frawd i ffactri dybaco. Nid oedd ond chwech oed, ac ennillai bedair ceiniog ar ddeg yr wythnos. Yr oedd ei feistr yn caniatau iddo gadw cwningod ac unrhyw greaduriaid ereill a garai, ac felly yr oedd Tom yn ddedwydd. Wedi dwy flynedd gadawodd am ffactri arall, dwy filldir o Aberdeen, er mwyn gwell hur, ond yn benaf o herwydd y coedydd a'r golygfeydd prydferth a basiai trwyddynt wrth fyned yn ol ac yn mlaen at ei waith. Bu yno am ddwy flynedd ac wedi hyny cafodd ei brentisio gyda chrydd o'r enw Begg—dyn cwrs, meddw, yr hwn er ei fod yn gwybod sut i weithio, ni weithiau ond ychydig. Treuliai ei

amser yn y tafarndy, camdriniai Tom, a dystrywiai bob creadur a ddygwyddai fod yn ei bocedau. Yr oedd ei brentisiaeth i barhau am chwe mlynedd, ond ar ddiwedd tair, parodd creulonder ei feistr iddo redeg ffwrdd. Dymunai ei dad iddo ddychwelyd, ond gwrthododd wneuthur hyny ar un cyfrif. Yr oedd arno yn awr awydd gweled gwledydd tramor, a chredai mai y ffordd oreu iddo lwyddo oedd troi yn forwr. Pallodd ei dad gydsynio, a gorfu iddo roi hyny i fyny. Yna meddyliodd am ffoi oddicartref, ac aeth at ewythr yn Kettle, gan ddysgwyl y buasai i hwnw ffeindio rhyw waith arall iddo heblaw gwneuthur esgidiau. Yr oedd Kettle yn 100 milldir o Aberdeen. Cychwynodd á dim ond chwe cheiniog yn ei boced, ychydig o flawd ceirch, hanner torth geirch, a rhyw ddilledyn neu ddau. Aethai chwe cheiniog arno i dalu am ei gludiad yn groes i'r afon Tay wrth Dundee. Aethai ceiniog am groesi pont Montrose; gwerthodd ei gyllell er sicrhau hono. Wedi rhai anturiaethau ar y ffordd, ni chafodd ond ychydig groesaw gan ei ewythr, yr hwn a dybiai ei fod wedi ffoi oddicartref. Dranoeth gwelodd Tom ei fod wedi gwneuthur peth ffol iawn, ac nas gallai wneuthur dim yn well na myned yn ol adref drachefn. Nid oedd ganddo ond dimai yn ei boced. Aeth ei ewythr gydag ef ychydig o'r ffordd, a rhoddodd iddo ddeunaw ceiniog. Pan ddaeth adref rhoddodd ei fam ddarlith hir a difrifol iddo, ac annogodd iddo fyned yn ol at ei grefft. Gofynodd a wnai ei dad ganiatau iddo fyned i'r môr yn awr. Yr oedd hi yn meddwl na wnai, ac mai y peth goreu oedd iddo ddychwelyd at ei grefft. Cyn dilyn cynghor ei fam gwnaeth un cais arall i fyned i'r môr ond yn aflwyddiannus. Yn lle treulio ei amser gyda ei hen feistr, cafwyd iddo feistr arall, gyda yr hwn yr aeth yn mlaen yn bur dda. Ac yn awr dechreuodd ei Ardd Lysiau Gwylltion, ond ni allai gael un llwyddiant arni. Yr oedd yn well gan y blodau a'r llysiau ei hen le. Tua'r adeg yma dechreuodd fynychu siopau llyfr-werthwyr a gwneuthurwyr gynau, i weled pictiwrau, llyfrau, ac adar wedi eu stwffio. Dechreuodd gymmeryd y "Penny Magazine" a'r "Weekly Visitor," ac os gwelai unrhyw lyfr a allai fforddio, prynai ef. Yn 1831, ymunodd á'r Aberdeenshire Militia, a bu bron a chael cosp trwm o herwydd tori y rheingoedd i fyned ar ol giar fach yr haf. Gwasanaethodd ei amser. Yr oedd yn parhau i gashau y grefft grydd, ac er mwyn ei gochelyd, *listiodd* drachefn, ond caniataodd i'w fam ei brynu yn rhydd. Pan yn ugain oed, gadawodd Aberdeen, dychwelodd at ei grefft, ac mewn tair blynedd, priododd fenyw ddysglaer a siriol. Yr oedd wedi ei settlo yn awr dros ei fywyd. Ni feddyliai mwy am fyned i'r Amerig, dechreuodd fyfyrio hanesiaeth naturiol gyda mwy o flys nag erioed, ac i wneuthur casgliad o adar, trychbryf, &c. Erbyn hyn yr oedd wedi meistroli y gelfyddyd o *breservio* y gwahanol greaduriaid oedd am gadw yn ei feddiant.

(*I'w barhau.*) A. G. J.

Diofalwch.—Yr wyf yn wastad yn dywedyd wrth bobl ieuainc, gochelwch ddiofalwch, ni ddichon yr un ffortun ei sefyll yn hir; yr ydych ar y ffordd fawr i ddinystr, y foment y meddyliwch eich hun yn ddigon cyfoethog i fod yn ddiofal.—*Sydney Smith.*

BWYD RHAD YN AMSER PRINDER.

RHAID yw cael bwyd rhad y gauaf yma os nad oes miloedd o deuluoedd i gael byw ar hanner digon neu newynu. Ni all chwe cheiniog wneuthur gwaith hanner coron, ac fe geir llawer menyw dlawd yn colli cnawd a nerth, a'i phlant yn myned yn wyneblwyd o ddiffyg digon o ymborth, tra mae hi yn tolio ei hunan i'w digoni hwy. Mae cig a llaeth allan o'r cwestiwn, ac nis gall neb gadw yn iach ac yn gryf ar fara yn unig. Po leiaf fyddo i wario mwyaf i gyd yw yr angen am gael cymmaint a ellir am yr arian. Nes gwello'r amser mae yn werth gwybod mai y bwyd cynnaliol (staying food) goreu a rhataf yw pys, ffae, ffacbys (*lentils*). Dylai bwyd er mwyn cyfarfod â holl angenion y corff gynwys elfenau i ffurfio cnawd a chynnyrchu gwres. Cynnwysa pwys o bys, mânbys, (*lentils*), *haricot beans*, gwerth dwy geiniog gymmaint o'r elfenau hyny ag a geir mewn dau bwys o gig gwerth dau swllt—dyma ffaith y gall pob un ei phrofi drosto ei hun. Rhoddaf gyfarwyddyd neu ddau sut i wneyd. Rhodder peint a hanner o'r naill neu'r llall yn wlych mewn dwfr dros nos. Gosoder hwy mewn llestr â chlawr arno gyda chwart o ddwfr a thamaid o *dripping*, a gadawer hwy i ferwi am ddwy awr neu dair yn araf araf nes tyneru. Trowch hwy yn fynych â llwy, a dodwch ragor os angen. Yna ychwanegwch wynwnsyn neu ddau, pybyr, halen, llwyaid o winegr, llwyaid o sugr, a berwch hwynt am hanner awr yn hwy. Gyda thafell o fara gwnaiff hwn bryd *substantial* a chyssurus i chwech o deulu am geiniog y pen, a bydd mor faethlawn a chiniaw o *beef-steak*. Os bydd ffwrn gellir ei ddigoni mewn llestr a chlawr iddo yn lle ei ferwi.

Etto cymmerer peint o bys neu ffae, tri pheint o ddwfr, ychydig o *thyme*, moron cochion (*carrots*), erfin, tatws, neu lysiau gleision, llonaid llaw o flawd, ac ychydig wynwyn, fel yn y cyfarwyddiadau o'r blaen, ac fe wneir tri neu bedwar chwart o *soup* ragorol, cost ceiniog y chwart.

Etto, mae gwerth ceiniog o esgyrn ffres, wedi eu briwio a'u berwi am oriau mewn dau neu dri chwart o ddwfr, yn cynnyrchu gwlybwr a ymffurfia fel *jelly* wedi oeri, heblaw wmredd o frasder. Os defnyddir hwn yn lle dwfr gyda'r cyfarwyddiadau uchod, bydd yn welliant mawr i'w nerth a'i flas, a gellir gwerthu yr esgyrn wedi'n am hanner a dalwyd am danynt.

Mae poten bys hefyd yn rhagorol iawn ac yn fwy maethlawn os nad mor *nice* a chig. Cymerer peint o *split peas* (2½c.), cylymer hwy yn llaes mewn llian, a berwer am ddwy awr neu dair nes tyneru. *Masher* hwy gyda halen, pybyr, wynwnsyn a thamaid o *dripping*, cylymer hwy etto mewn llian a berwer am awr arall. Gwnaiff hwn bryd da i dri ar gost o geiniog a ffyrling yr un. Gwneir llawer llai o ddefnydd o bys, ffae, &c., yn y wlad yma na ddylid. Am feithriniaeth sylweddol ar yr un gost, nid oes dim yn debyg i'r cyfarwyddiadau uchod. Yr unig beth sydd yn tynu yn ol yw yr amser a gymmerant i'w digoni.

Y nesaf at bys, ffae, &c., y bwydydd cynnaliol rhataf ydynt caws, ysgadan cochion, blawd Indian corn, blawd gwenith bras (whole-wheat meal), blawd ceirch. Mae y tri diweddaf, yn ffurf sucan gyda thriagl yn llawer mwy maethlawn i blant, na gwerth yr un arian o fara can. Nid yw yr Indian Meal yn costio ond ceiniog y pwys, a'r lleill ddwy geiniog neu lai. Cocoa yw yr yfed mwyaf maethlawn. Pan na ellir cael llaeth, cocoa yw y peth yfed goreu i blant bach. Nid oes y peth nesaf i ddim maeth mewn cwrw. Lle mae defnyddiau tân a dillad yn brin mae yn werth gwybod fod papyr llwyd cryf, wedi ei dacio tufewn i ddilledyn—gwn neu got, yn gyssur mawr. Gwnaiff papur llwyd neu hanner dwsin o hen newyddiaduron wedi eu tacio wrth flanced neu gwilt ateb pwrpas da. Er nad oes dim gwres yn y papyr ei hunan mae yn syndod gymmaint o oerfel mae yn gadw allan.

A. G. J.

YMWELWCH A'CH RHIENI.—Os ydych yn byw yn yr ardal, bydded swn eich troed yn un aml a chynnefin yn yr hen gartref. Os ydych yn byw yn mhell, gwnewch hi yn neges bwysig i fyned i ymweled â'ch rhieni. Yn hyn, peidiwch sylwi gormod ar amser na thraul. Bydd yr amser wedi ei dreulio yn dda, bydd y draul yn un a ddwg ad-daliad. Pan ryw ddiwrnod y daw'r gair atoch, wedi ei ffiachio trwy y telegraph, fod eich tad neu eich mam wedi gadael, ni byddwch yn meddwl llawer y pryd hwnw, am yr oriau a'ch dygodd at ymyl eich anwyl un ymadawedig.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod y Nadolig yn Llandyssul, Mercher a Iau, Ionawr 1, a'r 2, 1879. Gan fod yr ysgoldy lle mae Undodiaid y lle yn arfer addoli yn rhy fychan ar gyfer y cynnulleidfaoedd a ddysgwylid i fod yn bresenol, trwy garedigrwydd Mr. Thomas Evans, Porth Hotel, sicrhawyd *Assembly Room* y gwesty adnabyddus hwnw at wasanaeth y cyfarfod. Mae digon o le yn yr ystafell i ryw dri neu bedwar cant, ac yr oedd yn orlawn yn ystod yr holl gyfarfodydd. Yr oedd gofid cyffredinol yn cael ei deimlo o herwydd absenoldeb y gweinidog, y Parch. W. Thomas, M.A., yr hwn a rwystrid i fod yn bresenol gan yr afiechyd trwm oddiwrth yr hwn y mae wedi hir ddyoddef, a'r hwn sydd wedi dyfod yn fater o bryder dwys i'w eglwysi a'i gyfeillion. Yn ol dymuniad Mr. Thomas, ymgymmerodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a threfniad y cyfarfodydd. Y gweinidogion presenol heblaw Mr. Davies oeddynt y Parchn. D. Evans, B.A., Cribin; T. Thomas, Pantydefaid; W. Rees, Rhydygwin; R. J. Jones, M.A., Aberdar; R. C. Jones, Llanbedr; W. James, B.A., Aberdar; W. Davies, Penrhiw, a J. H. Davies, Cefncoed. Yr oedd yn bresenol hefyd yn ystod rhai o'r cyfarfodydd y gweinidogion canlynol o enwadau ereill:—Y Parchn. T. Phillips (A.), T. James, M.A., (T.C.), ac E. Lewis (B.). Nos Fercher, cymmerwyd y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth gan Hathren Davies, a phregethodd W. Rees (Matt. vii. 3, 5); a D. Evans (Matt. vii. 20). Boreu dydd Iau, dechreuodd J. Davies, a chanlynwyd ef gan y pregethwr appwyntiedig R. J. Jones, yr hwn a draddododd bregeth ragorol—un ag y gellid ei hystyried yn eithriadol o dda o ran cynllun ac eangder ei haddysg, a chymhwysder a phrydferthwch ei hegluriadau (illustrations)—pregeth a bair i gyfarfod Llandyssul i gael ei gofio am flynyddau lawer. Y testun oedd, Genesis i, 26, a Pregethwr vii 29, a'r pwnc a drinid, "Natur a thynged dyn." Dechreuodd y bregeth gyda sefyllfa isel ac annadblygedig dyn cyntefig fel ei dysgir gan wyddor ddiweddar, ei gynnydd dibaid o ddechreuadau bychain nes cyrhaedd safle uchel gwareiddiad Ewrop y dyddiau presenol; yna fe gyffyrddodd â'r cwmwl a dybir sydd yn gorphwys ar ddynoliaeth gyda'i fantell ddu o bechod a thrueni, achosion y cwmwl, ei faint a'i symmudiad, a therfynodd trwy gyfeirio yn y modd mwyaf cyffrous at y syniad goruchel o'r "gobaith eangach" ("larger hope") i holl ddynolryw. Dygwyd y gwasanaeth i derfyniad pwrpasol iawn trwy ganu y cyfieithad Cymraeg o eiriau mawreddog Tennyson gan y Parch. W. Thomas (Emyn 350), yn dechreu "O'm hyder yw mai rhywfodd da," &c. Yn union ar ol hyny cafwyd y Gynnadledd arferol, o dan lywyddiaeth J. Davies, Alltyplaca. Y pwnc i gael ei drin oedd "Dyledswyddau gweinidogion a lleygwyr yn nygiad yn mlaen yr achos yn ein plith," a darllenwyd papyr helaeth arno gan R. C. Jones, Llanbedr. Gan fod Mr. Jones wedi bron diysbyddu'r pwnc, a bod yr amser wedi rhedeg yn mhell, ni chynnygiodd neb arall i siarad. Yn y prydnawn pregethodd W. James, Aberdar, oddiar Ioan vi. 53—58, a R. C. Jones, Llanbedr, oddiar 1 Ioan iv. 16. Dyma'r tro cyntaf i gynnal y cyfarfod chwarterol yn Llandyssul, a gobeithiwn y bydd yn gefnogaeth i'r cyfeillion yno i deimlo ei fod wedi bod, i bob ymddangosiad, yn gyfarfod llwyddiannus, a bod Undodiaeth yn parhau fel cynt yn allu bywiol yn eu cymmydogaeth. Penderfynwyd fod cyfarfod y Pasg i gael ei gynnal yn Alltyplaca. Pregethwr—W. James, Aberdar. Pwnc y Gynnadledd—"Gwir gynnydd dynoliaeth.—*Gan mwyaf o'r* "CHRISTIAN LIFE."

W. JAMES.

FFEITHIAU CYWRAIN.—Os gosodir canwyll wêr mewn dryll, a'i saethu at ddrws, aiff trwyddo heb gael un niwed; ac os tanir bwleten mwsced i ddwfr, nid yn unig fe'i ceir yn tasgu yn ol, ond ceir hi mor *flat* a phe wedi ei saethu yn erbyn rhyw sylwedd solid. Gellir tanio mwsced trwy gwarel ffenestr, a gwnaiff dwll o faintioli y belen heb gracio y gwydr; os crogir y cwarel wrth edefyn aiff y belen trwyddo yr un modd, ac heb beru i'r edefyn gyffro. Os suddir corcyn ddau cant troedfedd i eigion y môr, ni chyfyd, o herwydd pwysau'r dwfr. Yn y gogleddbarth a elwir yr *Arctic Region*, pan mae y gwres-fesurydd islaw zero, gall dynion ymddyddan â'u gilydd yn rhwydd pan fyddont filldir oddiwrth eu gilydd. Dywed Dr. Jamieson iddo glywed pregeth bob gair o honi, fwy na dwy filldir o ffordd.

Gohebiaethau.

TRYSORFA Y GWEDDWON.

At

Eglwysi a Gweinidogion y Presbyteriaid.

FRODYR,—Rhaid wrth eich cynnorthwy a'ch cyfraniadau at y drysorfa uchod hyd y galloch o hyn hyd yr ugeinfed o Fawrth. Yr ydych yn mhell iawn yn ol er ys blynyddau, tra mae y gymdeithas yn flynyddol gyfranu i'ch gweddwon chwi fel ereill. Wrth weled eich difaterwch, mae yn brofedigaeth i un feddwl mai peth mewn enw yn unig yw proffes. Myfi a feddyliais cyn hyn fod gweithred dda yn nod ymdrechfa Undodiaeth, ond erbyn hyn gwelaf fod eu harian hwy fel ereill yn anhawdd cael y ffordd atynt. Daeth yr hen frawd o'r Nottage yn aelod o'r gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf o'i fywyd hir a defnyddiol, a dyma C. H. James, Ysw., Merthyr, wedi gwneyd yr un modd ddim ond gofyn—Frodyr "Ceisiwch a chwi a gewch."

LEWIS EVANS.

Providence House, Merthyr.

[Carem yn fawr pe gwnae rhai o'n pobl wrando ar Mr. Evans, ac anfon ychydig help.—GOL.]

YR YMOFYNYDD.

BARCH. SYR,—Drwg genyf ddeall fod yr YMOFYNYDD ar fyned i orphwys dros'ennyd etto. Os gwnaiff cynnyg o'r fath a ganlyn ei gadw ar ei draed, bydd yn llawen iawn genyf. Ychydig yn ol ymddangosodd rhybudd fod perygl iddo ddarfod o 'herwydd diffyg yn y taliadau. Yr wyf fi wedi arfer talu am dano yn rheolaidd bob blwyddyn er ys tro; daeth hyn i arferied genyf trwy i mi i ymgynghori â Mr. James, Aberdar, dywedodd wrthyf y gwnai hyny y tro o'r goreu. Yr unig reswm genyf dros wneuthur hyny yn flynyddol yn hytrach na chwarterol er arbed traul y llythyrdy.

Os mai diffyg yn y taliadau yw yr achos, yr wyf yn cynnyg y drefn ganlynol:—I bob cynnulleidfa i wneuthur blaen-dal am flwyddyn am dano, sef, am gynnifer ag sydd o dderbynwyr iddo yn barod, hyny yw, fod y cynnulleidfaoedd i fod yn atebol i'r dosparthwyr, os na all pob derbyniwr wneuthur blaen-dal am dano. Gwnaf fi hyny ar fy nghyfrifoldeb fy hun am y flwyddyn hon, ac os na fydd tebyg y gallaf wneuthur hyny y flwyddyn ddyfodol, gwnaf roddi rhybudd mewn pryd er dewis un arall yn fy lle am y flwyddyn ddyfodol. Os gwelwch yr ychydig linellau hyn yn werth i ymddangos yn yr YMOFYNYDD nesaf, wele hwynt at eich gwasanaeth.

St. Clears, Ion. 13, 1879. D. P.

ANWYL SYR.—'Roedd yn ddrwg iawn genyf weled ar Amlen YR YMOFYNYDD, eich bod yn bygwth ei farwolaeth unwaith etto. Gallaf sicrhau i chwi i mi fel *un* gael fy nolurio yn enbyd, gan nad oes genym yn awr ond *un* cyhoeddiad yn y Gymraeg. Mae yn ymddangos i mi ei fod yn drueni o'r mwyaf i ni ei adael i farw etto, gan fod cymmaint grwgnach wedi bod yn ein plith fel enwad drwy y misoedd pan nad oedd yn bodoli o'r blaen. Mi feddyliwn fod yn rhaid i'r cynnulleidfaoedd ddihuno ar unwaith, a threfnu rhyw foddion o'r mwyaf priodol at ei gadw yn fyw; ac os ydych chwi, Mr. Golygydd, yn gweled yn glir mai eisieu rhagor o arian sydd at ei gadw i fyny, gadewch i mi roddi fy nghynnyg o'ch blaen, hyny yw, fod i bob gweinidog geisio gan *un* neu ddau yn mhob cynnulleidfa roddi y cwestiwn yn noeth gerbron, pa un gwell ai cadw yr YMOFYNYDD i fyny ai peidio, ac os o'i du y bydd y mwyafrif, i'r rhai hyny bawb o honynt a allant fforddio gymmeryd dau o honynt yn lle un neu ragor os gwelant hyny yn gymhwys. A chan fod y *Christian Life* yn newyddiadur wythnosol byddwch cystal ag anfon y cynnyg goreu er ei gadw yn fyw iddo ar unwaith, fel y gallaf feddwl fod y gweinidogion oll yn ei dderbyn y gellir siarad ar y mater y Sabbath nesaf: "Gwell hwyr na hwyrach;" gan obeithio mai *financial deficiency* yw ei glefyd gwaethaf, dichon y gellir gwella hwnw yn well nag un clefyd arall. Maddeuwch i mi am eich anerch fel hyn yn annhrefnus, os na fydd o un lles. Mae'r dyben yn dda beth bynag.—Ydwyf, yr eiddoch gyda'r parch mwyaf,

Rhydybanau. S. JENKINS.

DIAREBION.

Yr afon wedi ei phasio
Duw wedi annghofio.

Na ddywed ddrwg am y flwyddyn
Nes dyfod hyd at ei therfyn.

Pan elo'r cadno i bregethu
Mae'n bryd i'r gwyddau edrych ati.

Hanesion.

GELLIONEN.—Dydd Nadolig, 1878, cynnaliwyd gwyl de gan ymgynnullwyr y lle uchod yn yr ysgoldy. Gan fod yr amser mor dlawd yn bresenol, dygwyd cynllun newydd yn mlaen, sef tocynau. Fod i bob un mewn oed, a chwenychai gymmeryd rhan o'r te a'r deisen, dalu chwe cheiniog, a cheiniog i blant yr Ysgol Sul. Gweinyddwyd wrth y byrddau gan ferched ieuanc perthynol i'r lle, i'r rhai y talwyd y diolchgarwch gwresocaf am eu llafur a'u ffyddlondeb. Yn yr hwyr, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus a hapus iawn, am oddeutu dwy awr a hanner o amser. Aeth y cantorion trwy eu gwaith yn rhagorol. Cafwyd anerchiadau pur dda gan rhai o'r hen bobl, yn nghyd a'r Parch. J. Evans, y gweinidog.

YSGOL SUL.—Dydd Sul, Rhagfyr 29ain, 1878, cynnaliodd Ysgol Sul Gellionen ei chyfarfod chwarterol dan lywyddiaeth Mr. D. W. Davies, yn absenoldeb y gweinidog. Er fod yr hin yn wlyb, daeth torf luosog i wrando yr adroddwyr a'r cantorion. Rhanwyd y cynnyrch i ddau gyfarfod, sef yn y capel ar ben y mynydd am ddau, ac yn yr ysgoldy am chwech. H. Morgan yn y gadair. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i'r adroddwyr a'r cantorion am eu gwaith yn adrodd a chanu mor rhagorol. Diweddwyd y cyfarfod trwy ganu yr emyn 133 a gweddio. Aeth pawb adref yn llawen ac nid yn drist.—HANESYDD.

MAE mwstwr mawr yn mhlith rhai o'r Annibynwyr am fod enw y Parch. J. Allanson Picton, M.A., wedi ei adael allan o'r *Congregational Almanac*. Gwelir fod enw Moncure D. Conway, M.A., hefyd wedi ei adael allan eleni am y tro cyntaf o'r *Unitarian Almanac*. Nid ydym hyd yma wedi gweled un cyfeiriad at hyn yn y papurau Undodaidd nac yn wir mewn un papur arall.

BYDD yn dda gan gyfeillion lluosog y Parch. T. Lloyd Jones yn Nghymru, i glywed ei fod wedi bod yn dra llwyddianus y flwyddyn ddiweddaf yn ei gylch gweinidogaethol yn Hale, Cheshire, a bod yr achos yno mewn sefyllfa lewyrchus a gobeithiol dan ei ofal. Ceir adroddiad yn yr "Altrincham and Bowdon Guardian," am Ion. 11eg o gyfarfod blynyddol y gynnulleidfa, yr hwn a gynnaliwyd dydd Mercher hyny o dan lywyddiaeth John Hall, Ysw., The Grange. Cyfeiriai y Cadeirydd at y cynnydd boddhaol oeddid wedi ei wneyd, yr hwn oedd yn ddyledus i fesur mawr i lafur eu gweinidog. Crybwyllai ei ymdrechion gyda'r Ysgol Sul, yr hon sydd wedi ychwanegu yn fawr yn ei rhif. Ei waith yn sefydlu y *Penny Bank* a'r *Band of Hope*, a'i gyflawniad ffyddlon o'i ddyledswyddau yn y pwlpud, ac yn ei waith ymarferol yn mhlith ei braidd. Pob llwyddiant iddo etto yn y dyfodol medd—HEN GYFAILL.

Marwgofion.

Ebrill 11, 1878, yn *Java*, un o ynysoedd pellenig y Mor Indiaidd, bu farw, o'r *Yellow Fever*, yn 21 oed, Thomas, mab y diweddar John Rees a Margaret Rees, Llwyncelyn, ger Trecynon, Aberdar. Yr oedd ein brawd ymadawedig yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul, y cwrdd, a'r Ysgol Gan, a phob peth mewn cyssylltiad â'r Hen-dy-Cwrdd. Nid oedd ei le byth yn wag na'i ran byth yn eisieu. Yr oedd yn wael ei iechyd er ys tro, ac o herwydd hyny ac arafwch masnach, aeth i ddilyn yr alwedigaeth forwrol, ac yr oedd yn dyfod yn mlaen yn hynod dda, ac wedi dychwelyd yn ddyogel o lawer taith hir a dyrys; ond pan oedd yn mhell o wlad ei dadau, ac o olwg mam neu chwaer, nac unrhyw ffrynd, daeth cenad oddiwrth ei Dad Nefol i alw arno oddiwrth ei waith at ei wobr. Tachwedd 11, pregethodd y Parch. W. James, B.A., bregeth darawiadol iawn ar yr achlysur.

Pantysgawen. L. LL.

Hydref 29, Mr. William Thomas, *Square and Compass*, Drefach, ger Llandilo, wedi cyrhaedd yr oedran patriarchaidd o 84. Yr oedd yr ymadawedig yn Undodwr goleuedig, ffyddlon a selog, a bu yn aelod am hir flynyddau yn yr Onenfawr, ond o herwydd methiant a llesgedd, methai fynychu yno fel y dymunai. Yr oedd yn ddyn parchus a chyfrifol trwy yr holl gymmyd-

ogaeth, a gair da iddo gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd hefyd yn wr cofus iawn, ac yn dal sylw manol ar arwyddion yr amserau, a phob amser yn medru rhoddi atebion parod, dros yr opiniynau gwladol a chrefyddol hyny oedd ef wedi ffurfio iddo ei hun. Yr oedd yn lled hyddysg yn hanes yr ymraniadau hyny a gymmerodd le yn hen Gapel Llandyfân, er ys yn agos i ganrif yn ol, pan oedd Arminiaeth ac Undodiaeth yn dechreu tori allan yn Nghymru. Trueni na fuasai rhyw rai wedi cymmeryd mewn llaw i ysgrifenu hanes y cyfnod cynhyrfus hwnw i'r YMOFYNYDD cyn yn awr. Yn y ty cyn cychwyn o'r orymdaith, cafwyd pregeth hynod o effeithiol a phwrpasol, gan y Parch. John Evans, Gellionen, oddiar 1 Cor. xv. 24, 25, 26. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llandybie.

Yn nechreu Rhagfyr, Elizabeth, anwyl briod James Thomas o'r Waunfach, wrth Gapel Bwlch-y-Fadfa, ar ol cystudd byr o ychydig ddiwrnodau. Magodd ei phlant gyda llawer o ddiwydrwydd a glanweithdra, a phan yr oedd y byd yn galed arni yr oedd ei hyspryd dewr a siriol yn ei chynnal i fyny. Bydd ei lle yn nghynnulleidfa'r Bwlch mwy yn wag. Claddwyd hi yn mynwent Pantydefaid, pan y gweinyddwyd gan y Parch. John Davies, Alltyplaca, trwy fod y Parch. W. Thomas yn analluog oblegyd afiechyd i fod yn bresenol.—*Cyfaill.*

Rhagfyr 13, yn 68 oed, ar ol wythnos o gystudd caled, David Humphreys, gwehydd, o'r Groesffordd, ger Pencader, a chyn hyny o Glyncoch, Llanfihangel-ar-arth. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf didwyll a diddichell a fuont byw erioed. Gweinyddwyd yn ei angladd gan y Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion, yn absenoldeb y Parch. W. Thomas, oblegyd afiechyd. Rhowd ei weddillion marwol i orphwys yn mynwent newydd Llwynrhydowen, ac yr ydym yn meddwl mai efe yw y deuddegfed o'r rhai sydd yn gorphwys yno. Boed nawdd Duw i'w weddw a'i blant yn eu galar trwm.—*T.*

Rhagfyr 23, yn agos i 80 oed, Margaret James, Tyllwyd, Cwmbach, Aberdar. Syrthiodd i ran yr hen chwaer ddidwyll yma fwy o afiechyd nag sydd yn syrthio i'r rhan amlaf o'i chydgreaduriaid. Y mae yr ysgrifenydd wedi ei hadwaen er ys mwy nag ugain mlynedd, yn ystod y cyfryw nychlyd a gwanaidd y bu. Dymunai a gweddiai yn daer am lawer o amser cyn dydd ei hymddattodiad ar i'r Tad Nefol ei chymmeryd ato ei hun. Bu yn aelod o'r eglwys gynnulliedig yn Hen-dy-Cwrdd, Heolyfelin, am lawer o flynyddau, ac wedi sefydliad achos Cristionogol Undodaidd yn y Cwmbach, yno yr aethai i'r addoliad cyhoeddus mor aml ag y gallai. Gadawodd naw o blant hiraethlon ar ei hol. a lluaws o wyron ac orwyron. Gweinyddwyd yn ei hangladd yn y tŷ gan y Parch. E. W. Lloyd, yna ffurfiwyd gorymdaith luosog iawn, ac awd â'i chorff mewn elorgerbyd i'w osod yn *Vault* y teulu yn mynwent hen Eglwys Aberdar.

Ionawr 4, 1879, yn 65 oed, bu farw Evan Evans, Marble Villa, Llandyssul, diweddar Gwarllwynoidos. Bu ei gystudd yn drwm er nid yn faith. Gweddw oedd yr ymadawedig, a gadawodd ddwy chwaer i alaru ar ei ol. Un tawel, dystaw iawn ydoedd, ond llawn meddwl, ac i'r eithaf yn benderfynol yn mhob amgylchiad. Yr oedd yn fwy ei ddylanwad yn ei gymmydogaeth na llawer a swnient fwy. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Ionawr 10, Joan Lewis, *Welsh Harp Inn*, Trecynon, Aberdar, yn 84 oed. Traddodwyd y bregeth angladdol yn y tŷ dydd Llun, gan y Parch. R. J. Jones, oddiar Esa. xliii. 2, "Pan elych trwy y dyfroedd, mi a fyddaf gyda thi?" Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. J. William a W. James, a chladdwyd yn y *Cemetery*.

PRIODAS.

Davies—Hughes. Ionawr 1, 1879, yn nghapel Twynyrodyn, Merthyr, gan y Parch. N. R. Williams, y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed, â Margaret, merch henaf Mr. W. Hughes, Old Post Office, Cefncoed.—*W. J.*

Mawr lwyddiant mwy i'r ddauddyn mwyn;
Er gwell, er gwaeth y byddo'u byd,
Rhoer iddynt ar eu taith o hyd
Nerth 'nol y dydd bob baich i ddwyn—

Nerth 'nol y dydd i ddwyn yr iau,
O hyd yn ffyddlon un i'r llall,
O hyd yn rhwyfo'u cwch yn gall,
Tra mordaith bywyd yn parhau.

Pan dorir eu dacarol nyth,
(Pell fyddo'r dydd y cymmer le)
Boed rhan ffyddloniaid yn y ne'
Yn goron i'w ffyddlondeb byth!

Barddoniaeth.

EMYN.

Nid gwiw i feidrol ddyn ffaeledig
I herio gallu mawr y nef,
Na rhoddi ffrwyn i wŷn anniddig,
A rhyfyg balch ei yspryd ef:
Y galon wâr fo'n ostyngedig,
A'i hanian mewn ufudd-dod gwir,
Bydd hon yn uchel wynfydedig
Dros ddyddiau anfarwoldeb hir.

Os trefnau'r nef yn llwyr nis gallaf
Amgyffred â fy meddwl gwan,
Er hyny yn fy nghalon credaf
Mai iawn yr oll a syrth i'm rhan;
Os chwerw iawn fydd llawer cwpan,
A llawer croes yn drwm i'w dwyn,
Gwn mai Efe sy'n trefnu'r cyfan,
Mewn perffaith gariad er fy mwyn.

Er pan yn blentyn fe'm harweiniodd,
Hyd lwybrau dyrys daear lawr;
A'i dyner ofal fe'm dilynodd
Fel llygad mam bob munyd awr:
Y rhan sy'n ol o yrfa bywyd
Mae hono hefyd yn ei law;
Ac Ef o'i gariad digyfnewid
A geidw bob rhyw niwed draw.

I dirion freichiau dy drugaredd
Ymollwng imi'n esmwyth gâd;
Doed wedy'n alar neu orfoledd
Ni chollaf afael ar fy Nhad:
A phan y bo tywyllwch angeu
Yn cau am danaf yn y glyn,
Deheulaw 'th ras a'm tywys adre
I wlad y nefol hedd bryd hyn.

W. T.

EMYN

Trwy genad Duw fe roddwyd dyn,
A'i alw 'n ol i farwol hun;
Tra geni dyn trwy genad Duw,
Ca 'i dori bant o dir y byw.

Trwy genad Duw daeth Iesu Grist
I'r goleu i 'n troi rhag pechod trist,
A marw yn wael a llwyd ei wedd,
I'n oleu bywyd nol y bedd.

Mor wir a'u genedigaeth oll,
A marw i gyd, fydd neb ar goll;
Dynolryw 'n rhwydd a gant eu rhan
Dragwyddol mewn priodol fan.

Am hyny gwyliwn ar ein taith,
'Dyw 'r hwya 'i fywyd ddim yn faith;
Daioni lluniwn ar bob llaw,
A byddwn frodyr yn ddi-fraw.

E dystia 'r galon iaith y nef,
Nid gyd â llais fer hanner llef;
Ac isel, mwyn, mae'r Iesu mad
Yn galw dyn i gol ei Dad.

DANIEL GLOFF.

Y DIWEDDAR MRS. EVANS, ABERCERDINEN, GER CAPELYGROES, LLANWNEN.

Pob enaid, gwyliwn ar ein taith,
Hyn ydyw'r iaith yn groyw;
Mor wir a'u genedigaeth oll,
'Daeth neb ar goll rhag marw.

Ca'dd hon flynyddau meithion fyw,
A gwyllys Duw oedd hyny;
Ond er ei lles heb amau llai,
Bu du nos gau am dani.

Tra bu, a glywais i erioed,
Gwnae 'i goreu i fod yn dduwiol;
Nid mynych clywais, dan bob clwy',
Swn chwaer yn fwy synwyrol.

Ei thyner blant, na fyddwch ffol
'Nawr ar ei hol i wylo;
Er canfod cornel gwag y gell
Mae byth er gwell gobeithio.

D'wed llais cyfiawnder daw rhyw ddydd,
Caiff etto 'n rhydd ei rhoddi;
Ac aden anfeidroldeb llawn,
Yn dyner iawn am dani.

Mae Duw yn galw 'i blant i'w gol,
Gwybyddir 'nol o'r beddau,
A braich drag'wyddol yn y gwaith,
Er ingawl iaith yr angau.

DANIEL GLOFF.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

BALANCE SHEET OCTOBER 1877, TO JANUARY, 1879.

Mr. Evan Thomas in account with the Welsh Unitarian Ministers' Education Fund.

Dr.	£	s.	d.	Cr.	£	s.	d.
1877—9.				1877—9.			
To Balance per Report on Ymofynydd Wrapper, Nov. 1877	5	0	10½	By Mr. J. D. Jones to April 1878	9	0	0
Subscriptions	27	11	2	,, D. G. Jones to April 1878	6	0	0
				Printing 1877—9	1	1	0
				Incidental Expenses, Money Order, Postages, &c.	0	2	6
	£32	12	0½	Balance	16	8	6½
To Balance in Treasurer's hand	£16	8	6½		£32	12	0½

"YR YMOFYNYDD."

Yr ydym wedi dyfod i'r penderfyniad mai gwell fydd i'r Ymofynydd fyned i orphwys dros ychydig yn bresenol. Ofnwn ei fod wedi bod yn ormod o faich ar rai er ys tipyn. Mae y cylchrediad wedi myned yn ol yn fawr ac mae'r taliadau yn dyfod i mewn yn afreolaidd iawn. Bydd ei gychwyniad buan yn y dyfodol yn dybynu i raddau ar ewyllys a phenderfyniad ein cynnulleidfaoedd. Hyd yma, yr ydys wedi trethu gormod o lawer ar amynedd a llogellau y dosparthwyr, y rhai ydynt wedi bod ar y cyfan yn ffyddlon iawn. Er hwylysu ein gwaith yn y dyfodol carem awgrymu

(1) Nad digon i neb edifarhau yn unig, fel Pharaoh gynt, oherwydd ei ddiffygion.

(2) Y dylai pob derbyniwr ofalu talu am ei gopi yn brydlawn fel ag i beidio rhoi trafferth diangen i'r dosparthwr.

(3) Y dylai pob cynnulleidfa fod yn atebol am y nifer fyddo yn angen bob pedwar mis, a pheidio gadael baich yr atebolrwydd ar y dosparthwr. Ni fydd y baich sydd yn drwm i un ond ysgafn pan y rhenir ef rhwng llawer. Tra yn gwasanaethu yr enwad nid teg dysgwyl i un dosparthwr fod yn golledwr.

(4) Y carem fod pob brys yn cael ei wneuthur i anfon i mewn yr olddyledion fel y gallom gyfarfod â gofynion yr Argraffydd, a bod yn alluog (5) i gychwyn etto os bydd masnach wedi adfywio, yn Gorphenaf, neu o bellaf yn Ionawr 1880.

(6) Fod eisieu mwy o ffyddlondeb ar ran gohebwyr fel ag i wneuthur ein hunig gylchiolyn yn fwy teilwng o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

TALIADAU.

J. D., Alltyplaca; L. W,, Gellionen; E. T., Fadfa; S. E., Merthyr; M. E., Llanon; J. W., Blaengwrach; J. D., Llandybie.

LLYFR I'R YSGOL SUL.

Dysgwylir y bydd yn barod o hyn i ben mis. Ei bris fydd dwy geiniog. Gwerthir 100 ac uchod yn ol 12 swllt y cant. Anfoner *orders* yn ddioedi at y Golygydd.

YR HELBUL YN LLWYNRHYDOWEN.

GALW I MEWN Y CYFRANIADAU.

Dymunir yn barchus ar bwy bynag sydd wedi bod mor garedig ag addaw cyfranu at y capel newydd, ac heb dalu i mewn eu haddewidion, i wneyd hyny yn ddioed i *Mr. John Jones, Solicitor, Llandyssul*, mewn *Cheques* neu *Post Office Orders*. Derbynir hefyd bob cyfraniadau ychwanegol yn ddiolchgar. Mae y capel yn prysur fyned rhagddo, ac er ys wythnosau dan dô.

TANYSGRIFIAD YCHWANEGOL:

Holbrook Gaskell, Esq., Woolton Wood, Liverpool ... £20 0 0

PRIODWYD.

Rhag. 18fed, yn nghapel y Fadfa, John Griffiths, Pantygrigos, â Mary Thomas, Felin Talgareg, gerbron Mr. W. James, Cofrestrydd. Gan mai hon oedd y briodas gyntaf ar ol i'r capel gael ei gofrestru, anrhegwyd y pâr ieuanc â Bibl hardd wedi ei rwymo mewn *Morocco leather*, a phob o bâr o fenyg *kid* gwynion, y rhai a gyflwynwyd yn absenoldeb y Parch. W. Thomas, gan Capt. Wm. Davies, yr *Aurora*, Llanarth, yr hwn hefyd a draddododd anerchiad dyddorol a phwrpasol i'r bobl ieuainc wrth wneyd y cyflwyniad.

EDUCATION.

CLIFTON STREET, ABERDARE: R. J. JONES, M.A., MASTER.

Vacancies for boarders. Terms on application.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—Rev. R. J. Jones, Clifton Street, Aberdare.